

Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent

Cynllun Cydraddoldeb Strategol
Adroddiad Blynyddol 2019/20

1. Cyflwyniad

Ym mis Ebrill 2016, cyhoeddodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Heddlu Gwent y Cydgynllun Cydraddoldeb Strategol i helpu i gyflawni ein dyletswyddau yn awdurdodau cyhoeddus, fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Cyflwynodd y Cydgynllun Cydraddoldeb Strategol y pum Amcan Cydraddoldeb ar gyfer y cyfnod o bedair blynedd rhwng 2016 a 2020 a benderfynwyd mewn ymgynghoriad â'n staff a'n cymunedau. I'n helpu i gyflawni'r Amcanion hyn, mae gennym Gynlluniau Gweithredu sefydliadol sy'n ein galluogi i gadw golwg ar ein cynnydd ac maent yn ffurfio sail yr adroddiad hwn.

Yn ystod 2019/20, mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi parhau i weithio tuag at gyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb. Er bod yr Adroddiad Blynyddol hwn yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ein cynnydd ac yn ein helpu i gyflawni ein dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae hefyd yn ein galluogi i dathlu llwyddiant wrth weithio tuag at wasanaeth heddlu teg a chynhwysol. Cynhyrchwyd Adroddiadau Blynyddol blaenorol ar gyfer y Cydgynllun Cydraddoldeb Strategol cyfredol yn gyhoeddiadau ar y cyd rhwng Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Heddlu Gwent. Fodd bynnag, yn 2019/20, penderfynwyd cyhoeddi dogfennau ar wahân, er mwyn gallu rhoi rhagor o bwyslais ar gynnydd pob sefydliad.

Dyma'r adroddiad terfynol ar gyfer y Cydgynllun Cydraddoldeb Strategol cyfredol ac mae Cynllun newydd yn cael ei ddatblygu ar gyfer 2020-24. Bydd nifer o weithgareddau'n cael eu dwyn ymlaen i'r Cynllun newydd er mwyn sicrhau parhad yn y ddarpariaeth; bydd angen gwaith ychwanegol ar eraill fel y gallwn ddangos llwyddiant, a nodir yn y ddogfen hon. Argymhellir darllen yr adroddiad hwn ar y cyd ag Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb Heddlu Gwent ar gyfer 2019/20.

Sylwer – mae'r term 'nodweddion gwarchoddedig' a ddefnyddir yn y ddogfen hon yn cyfeirio at nodweddion oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, hil, crefydd, beichiogrwydd a mamolaeth, a rhywedd.

2. Ein Hamcanion Cydraddoldeb

Nod troswaol ein Hamcanion Cydraddoldeb yw sicrhau ein bod yn ymgorffori egwyddorion cydraddoldeb drwy bob agwedd ar ein busnes dyddiol, sef:

- Cymunedau yr Ymgysylltir â Nhw – darparu gwasanaethau sy'n rhwydd eu defnyddio ac sy'n ymateb i anghenion pob cymuned ac yn diwallu eu hanghenion
- Cyflogwr Delfrydol – datblygu amgylchedd gwaith sy'n cynnwys pawb ac sy'n annog yr holl bersonél i ddatblygu a symud ymlaen
- Gwasanaeth sy'n Gweithio – cynnwys cydraddoldeb ym mhrosesau'r sefydliad a'r modd y caiff perfformiad ei reoli

Mae gwaith i gyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb yn adlewyrchu'r pum blaenoriaeth a nodir yng Nghynllun Heddlu a Throseddu Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu 2017-2021:

- Atal Troseddu
- Cefnogi Dioddefwyr
- Cydlyniant Cymunedol
- Mynd i'r Afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Darparu Gwasanaethau'n Effeithiol

Yn benodol, mae'n cefnogi'r broses o gyflawni gwaith sy'n ymwneud â chydlyniant cymunedol:

- Cael safbwyntiau pob cymuned ar faterion plismona a throseddu a sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn diwallu anghenion amrywiol ein cymunedau
- Sicrhau ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth sy'n hybu parch a chydlyniant drwy ymgysylltu â'n cymunedau ac sy'n cefnogi amgylchedd lle na oddefir trosedd ac anhrefn
- Mae gan Heddlu Gwent a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu weithluoedd iach a arweinir gan werthoedd sy'n wir gynrychioli'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu
- Gweithio gyda'n cymunedau i leihau effaith troseddu cyfundrefnol a lleihau'r cynnydd mewn radicaliaeth ac eithafiaeth.

Mae ein hymrwymiad i gydraddoldeb yn rhan annatod o werthoedd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, sy'n gweithredu fel prif sail i bopeth a wnawn.

Byddwn yn gweithredu'n:

- Agored – drwy fod yn atebol (yn fewnol ac yn allanol), yn addysgol, yn hygyrchr ac yn ymgysylltiol, ag
- Empathi – trwy ofalu, gwranddo, deall a bod yn ymatebol, ac
- Uniondeb – trwy fod yn onest, yn ddibynadwy, yn broffesiynol ac yn deg


Byddwn yn:

- Grymuso – drwy greu amgylchedd sy'n cefnogi staff a chymunedau i wneud penderfyniadau a chyflawni canlyniadau
- Arloesi – drwy greu amgylchedd lle bo arloesedd yn ffynnu, yn bersonol a gyda'n gilydd

Mae staff Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi ymrwymo i weithio yn unol â Chod Moeseg ac Egwyddorion Nolan ar gyfer Bywyd Cyhoeddus.

Rydym yn gweithio yn unol ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau er mwyn gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd. Mae gan y Ddeddf saith nod llesiant sy'n cysylltu â'r Cydgynllun Cydraddoldeb Strategol ac yn cryfhau ein gwaith er mwyn mynd i'r afael

ag anghydraddoldeb, hybu cydlyniant a chefnogi iechyd a lles ein staff a'r rhai sy'n dod i gysylltiad â ni, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed neu'r rhai y mae ganddynt anghenion cymorth ychwanegol sy'n gysylltiedig â'u nodweddion gwarchoddedig:



Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi bod yn gweithio gyda Heddlu Gwent i ddatblygu a gweithredu Fframwaith Perfformiad Sefydliadol cadarn ac effeithiol, a strwythur adrodd. Bydd gwaith sy'n gysylltiedig â'r fframwaith a'r Cydgynllun Cydraddoldeb Strategol yn ein galluogi i nodi a deal yn well sut mae Heddlu Gwent yn cofnodi nodweddion gwarchoddedig ar draws pob trosedd a math o annhegwch, a'r gwasanaeth a ddarperir i unigolion o'r cymunedau hynny, ac yn fewnol hefyd er mwyn cynrychioli'r gweithlu, gan ganiatáu inni argymhell arferion gwell pan fo hynny'n berthnasol.

3. Yr wybodaeth ddiweddaraf am ein Hamcanion Cydraddoldeb

Amcan Cydraddoldeb Un: Troseddau Casineb a Cham-drin Domestig

Nodi cam-drin ac aflonyddu pan fyddant yn effeithio ar gymunedau ac unigolion, a gweithredu'n effeithiol i atal a herio'r ymddygiad hwn, yn ogystal â dod â throeddwy'r o flaen eu gwell.

A. Cam-drin Domestig

Un o'r ymrwymïadau yn ein Cydgynllun Cydraddoldeb Strategol oedd gwella'r cyfraddau o ran adrodd a chofnodi achosion o gam-drin domestig sy'n effeithio'n benodol ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig. Wrth bennu ein Hamcanion Cydraddoldeb yn 2016, nodwyd gennym fod yng Ngwent lefelau isel o ddiodefwrwr a oedd o gefndir Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME), pobl a nododd eu bod yn Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol neu Drawsrywiol (LGBT) a phobl anabl a oedd yn cael eu trafod mewn Cynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg sy'n rheoli achosion risg uchel o gam-drin domestig. Cymharwyd hyn â'r niferoedd a argymhellwyd ar gyfer Gwent a ddarparwyd gan SafeLives, yr elusen cam-drin domestig annibynnol.

Mae'r tabl canlynol yn cymharu nifer yr atgyfeiriadau Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg ar gyfer y cyfnod adrodd o'u cymharu â'r niferoedd a argymhellir:

Atgyfeiriadau	2018/19	2019/20	Argymhellir
<i>BAME</i>	6.5%	3.5%	6.0%
<i>LGBT</i>	0.5%	0.9%	2.5% - 5/0%
<i>Anabl</i>	3.3%	1.8%	18%+
<i>Gwryw</i>	4.6%	4.3%	5% - 10%

Yn ystod y flwyddyn, buom yn gweithio gyda Heddlu Gwent i gefnogi cydymffurfio'n well wrth gofnodi data Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg, yn unol â sylwadau gan Arolygiaeth Cwnstabiliaeth, Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhyd. Bydd pwyslais parhaus ar sicrhau bod y data a gofnodir yn galluogi cymorth effeithiol i oroeswyr cam-drin domestig a gwell ddealltwriaeth o'u hanghenion er mwyn cefnogi prosesau comisiynu Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Caiff hyn ei fonitro mewn cyfarfodydd mewnol a thrwy ymgysylltu â dioddefwyr a goroeswyr.

Mae data Heddlu Gwent ar gael hefyd ar gyfer achosion nad ydynt yn rhai Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg yn ôl rhyw ac ethnigrwydd. Mae hyn yn dangos nad yw oddeutu 16% o achosion cam-drin domestig yn cofnodi ethnigrwydd y dioddefwr, ac nad yw oddeutu 0.4% yn nodi rhywedd yr unigolyn. Mae hyn yn welliant o'i gymharu â 2018/19, pan na chofnodwyd ethnigrwydd y dioddefwr mewn 27% ac na chofnodwyd rhywedd y dioddefwr mewn 8.6% o'r achosion.

Byddwn yn parhau i weithio gyda Heddlu Gwent a phartneriaid yn ystod 2020/21 er mwyn mynd i'r afael â'r gostyngiad yn nifer y digwyddiadau a gofnodwyd a gwella'r broses o gofnodi gwybodaeth ddemograffig ar gyfer goroeswyr cam-drin domestig er mwyn sicrhau cynrychiolaeth fwy cywir ar gyfer yr achosion a gofnodir. Bydd y Cydgynllun Cydraddoldeb Strategol newydd yn canolbwyntio ar wella ansawdd y data sy'n cael eu cofnodi i gefnogi ymgyrchoedd gwybodaeth a dargedir er mwyn annog rhagor o adroddiadau o gymunedau nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd ar draws y digwyddiadau a gofnodir.

Roeddem hefyd wedi nodi pryderon penodol yn ymwneud â menywod sy'n ceisio lloches ac sy'n ffoaduriaid efallai na fyddant yn gallu defnyddio cymaint o wasanaethau cymorth, gan eu bod yn llai tebygol o adrodd digwyddiadau o gam-drin domestig oherwydd rhwystrau ieithyddol neu ddiwylliannol, neu ofn yr heddlu. Gan weithio gyda phartneriaid, fe wnaethom ni godi ymwybyddiaeth ynghylch swyddogaeth yr heddlu o ran annog unigolion sy'n agored i niwed i adrodd eu profiadau, yn uniongyrchol neu drwy asiantaeth gymorth. Bydd y gwaith partneriaeth hwn yn parhau yn 2020/21, yn enwedig yng nghyd-destun comisiynu a gwerthuso gwasanaethau cymorth Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer cam-drin domestig a thrais rhywiol a'n hymgysylltiad â dioddefwyr a goroeswyr o'r gymunedau hyn.

Yn dilyn argymhelliad gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ym mis Rhagfyr 2019, roeddem yn falch o gefnogi penodiad Cydgysylltydd Ymgysylltu â Goroeswyr Heddlu Gwent, y cyntaf o'i fath i Gymru. Bydd y swydd yn sefydlu fframwaith ymgysylltu â goroeswyr cynaliadwy, lle gall goroeswyr cam-drin domestig a thrais rhywiol rannu eu profiadau uniongyrchol. Wedi ei leoli yn Cysylltu Gwent, sef ein hyb dioddefwyr amlasiantaethol, bydd y Cydgysylltydd yn gwella darpariaethau ein

gwasanaeth presennol drwy helpu i sicrhau ein bod yn darparu cymorth effeithiol a chynhwysol i ddiodefwyr.

Ym mis Chwefror, anfonwyd gwahoddiad ar draws ein cymunedau i bobl rannu eu profiadau a gwella'r gwasanaethau a gynigir gennym ar hyn o bryd. Cynhaliwyd y grŵp ffocws cyntaf ym mis Mawrth a chynlluniwyd cyfres o sesiynau ar gyfer y misoedd canlynol. Awgrymwyd amrywiaeth o bynciau gan gynnwys disgwyliadau'r diodefwyr, y gwasanaeth a'r wybodaeth a dderbyniwyd, sicrhau y ceir yr wybodaeth ddiweddaraf, ac a dderbyniwyd y cymorth angenrheidiol. Oherwydd effaith COVID, symudwyd gwaith y grŵp ffocws i leoliad rhithwir er mwyn sicrhau diogelwch y cyfranogwyr. Bydd canlyniadau'r gweithgaredd hwn yn cael eu rhannu yn y cyfarfodydd mewnol priodol yn ystod 2020/21 lle byddwn yn gallu monitro gweithgareddau ymgysylltu ar draws nodweddion gwarchoddedig er mwyn sicrhau dull cynhwysol.

Yn niwedd 2019/20, fe wnaethom ni lwyddo i sicrhau cyllid gan y Swyddfa Gartref ar gyfer Cynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol ar gyfer Plant, Iechyd Meddwl a'r Gymuned. Bydd y swyddogaeth hon, a fydd yn dechrau yn 2020/21, yn gwella'r lefelau presennol o wasanaeth sydd ar gael ac yn galluogi gwaith wedi'i dargedu gyda grwpiau a dangynrychiolir, gan fonitro'r canlyniadau yn y cyfarfodydd mewnol priodol.

Ar hyn o bryd, mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn cyfrannu at ariannu Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig a gwasanaethau cymorth ymosodiadau rhywiol yng Ngwent. Caiff demograffeg defnyddwyr y gwasanaethau eu monitro'n well er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn briodol ac yn cynnwys pob cymuned. Yn ystod 2019/20, bu'r gwasanaethau'n cefnogi:

- 3,307 o oroeswyr cam-drin domestig – roedd 86.5% ohonynt yn nodi eu bod yn fenywod, 12.9% yn ddynion, a 0.1% yn anneuaid; dywedodd 4.5% ohonynt eu bod yn hoyw/lesbiaidd a 4.4% eu bod yn ddeurywiol; roedd 22.7% ohonynt yn 17 oed ac iau; nododd 8.1% eu bod yn BAME; nododd 17.1% ohonynt eu bod yn anabl.
- 573 o oroeswyr trais rhywiol – roedd 96.1% ohonynt yn nodi eu bod yn fenywod, a 3.8% yn ddynion; roedd 2.9% ohonynt yn 17 oed ac iau; ni chofnodwyd unrhyw wybodaeth ynghylch cyfeiriadedd rhywiol, ethnigrwydd nac anabled.

Cofnododd y ddau wasanaeth gynnydd sylweddol o ran gallu i ddefnyddio'r gwasanaeth o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gan gynnwys mwy o ddiodefwyr gwrywaidd yn adrodd eu profiadau. Rydym yn cydnabod bod y canlyniad cadarnhaol hwn yn dangos rhagor o ffydd ymhlith y cyhoedd o ran parodrwydd i ymgysylltu â chymorth, o ganlyniad i'n pwyslais parhaus ar ddarparu gwasanaethau effeithiol a'n gwaith ymgysylltu a chodi ymwybyddiaeth, er mwyn annog rhagor o ddiodefwyr i adrodd eu profiadau. Bydd ein gwaith yn parhau i gydnabod bod y materion hyn yn parhau i fod yn gysylltiedig â rhywedd a bod tanadrodd yn parhau ar draws pob rhywedd, ac mae rhyngblethedd nodweddion gwarchoddedig megis hil neu ethnigrwydd, ac anabled yn cael effaith ychwanegol ar hyn.

Ar lefel strategol, mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn aelod gweithgar o'r Bwrdd Partneriaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a'r Grŵp Cyflawni cysylltiedig, sy'n darparu Cynllun Cyflawni Strategol.

Nod Blaenoriaeth Pedwar y Cynllun yw sicrhau bod ein gwaith mewn cysylltiad â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cynnwys ein holl gymunedau.

Mae'r gwaith penodol a wnaed yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Cefnogi'r broses o ddatblygu grŵp cymorth i ddioddefwyr gwrywaidd – mae staff Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau wedi ymgysylltu â chyfarfodydd y grŵp goroeswyr gwrywaidd er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'u profiadau a ble mae angen gwelliannau i'r gwasanaethau
- Archwilio anghenion tramgwyddwyr benywaidd a'r rhai nad ydynt yn cyd-fynd â gwasanaethau safonol – gan weithio gyda Heddlu Gwent, rydym wedi dechrau nodi data cysylltiedig gyda'r nod o weithio gyda phartneriaid i bennu'r gofynion ar gyfer gwasanaethau cymorth effeithiol i dramgwyddwyr o dan y Safonau Gwasanaeth
- Gweithredu'r Safonau Gwasanaeth i Dramgwyddwyr a datblygu prosesau sicrhau ansawdd parhaus – rydym yn parhau i gefnogi partneriaid Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol er mwyn gweithredu'r Safonau Gwasanaeth ac rydym yn gweithio tuag at ddatblygu dealltwriaeth o anghenion gwasanaethau
- Adolygu gofynion adrodd data i gefnogi'r broses o ddarparu a monitro data effeithiol – rydym yn gweithio gyda'r Bwrdd Partneriaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol er mwyn adolygu'r gofynion adrodd data amrywiol ar wasanaethau, gan gynnwys y rhai a osodir gan drefniadau contractiol Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau ar wasanaethau a gomisiynir. Bydd hyn yn lleihau'r goblygiadau o ran adnoddau ac yn symleiddio'r broses o gynhyrchu data, gan barhau i gydymffurfio â gofynion adrodd.

Ym mis Mawrth 2019, aeth Ymgyrch Encompass yn fyw ar draws y pum ardal awdurdod lleol yng Ngwent. Wedi ei goruchwyllo gan Fwrdd Prosiect Camau Cynnar gyda'n Gilydd (rhan o waith Gwent yn rhaglen Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentynodod Cymru gyfan) y mae'r Comisiynydd yn aelod ohoni, mae Ymgyrch Encompass yn darparu cymorth ac ymyriadau ychwanegol yn yr amgylchedd addysgol i blant a phobl ifanc sy'n agored i gam-drin domestig. Yn ystod 2019/20, fe wnaeth Heddlu Gwent nodi a galluogi cymorth i dros 6,000 o blant a phobl ifanc a oedd yn gysylltiedig â'r fenter. Roedd 33% o'r unigolion hyn wedi profi mwy nag un digwyddiad. Roedd oddeutu 38% o'r rhai a gefnogwyd yn nodi eu bod o gefndiroedd BAME. Wrth fynd i ddigwyddiadau lle bo dioddefwyr BAME, ar yr amod bod y prosesau nodi risgiau yn cael eu defnyddio'n gywir, rydym yn rhagweld adlewyrchiad cadarnhaol yn y data Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg dros amser. Felly, gallai data Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg ar gyfer dioddefwyr BAME fod yn fwy cadarnhaol na'r hyn a gynrychiolir yn y data yn yr adroddiad hwn - byddwn yn monitro hyn dros amser ac yn rhoi sylwadau ar unrhyw dangynrychiolaeth barhaus er mwyn deall yr achosion.

Yn ystod y flwyddyn, buom yn gweithio gyda Thîm Cyflawni Camau Cynnar gyda'n Gilydd i gynhyrchu fideo i arddangos y gwahaniaeth y mae'r rhaglen wedi ei gwneud i

fywydau a phrofiadau swyddogion yr heddlu a phobl yng Ngwent yn ogystal â chynlluniau'r prosiect yn y dyfodol¹, gan gynnwys:

- Darparu hyfforddiant ACETIME i dros 1,000 o swyddogion a staff Heddlu Gwent (gan gynnwys Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu) a 300 o aelodau staff o asiantaethau partner
- Cynnal gweithdai Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd ar gyfer dros 200 o swyddogion er mwyn gwella ansawdd yr wybodaeth a ddarperir gan swyddogion
- Cyflwyno Gweithiwr Cymdeithasol Diogelu i Ystafell Reoli'r Gweithlu i ddarparu cyngor, canllawiau a chymorth 'byw' er mwyn gwella ymatebion i ddigwyddiadau sy'n cynnwys pobl sy'n agored i niwed y mae angen eu diogelu
- Gweithredu dau Brosiect Ymyrraeth Gynnar yng Nghasnewydd ac ym Mlaenau Gwent
- Cyflwyno Ymgyrch Encompass ledled Gwent
- Cyflwyno 'Backup Buddy', sef ap llesiant ar-lein ar gyfer swyddogion, staff a theuluoedd; dyma'r tro cyntaf i heddlu yng Nghymru wneud hyn.

Bydd rhaglen Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod yn darparu sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer ffyrdd gwell o weithio i wella ein dull o nodi, ein hymatebion a'n cymorth cynnar i unigolion sy'n agored i niwed. Byddwn yn parhau i gydweithio â phartneriaid i ddatblygu'r rhaglen ymhellach, gan gynnwys cyfochri Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod â'r Fframwaith Cymwysterau Addysg Plismona a Rhaglen Ddysgu Diogelu'r Cyhoedd.

Tua diwedd y cyfnod adrodd, ymrwymodd y DU i gyfyngiadau symud mewn ymateb i bandemig COVID-19. Cododd hyn lawer o bryderon ynghylch risgiau cynyddol cam-drin domestig i'r rhai a oedd yn aros gartref yn ystod y cyfyngiadau, yn ogystal â gallu cyfyngedig neu ddiddymu gallu pobl sy'n agored i niwed i ddefnyddio prosesau cyfiawnder troseddol. Gweithiodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu gyda phartneriaid Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i ddatblygu ymgyrch gyhoeddus yn annog unrhyw un a oedd mewn perygl neu'n profi cam-drin i adrodd y sefyllfa. Hyrwyddwyd hyn ar draws ein holl sianelau cyfathrebu gan gynnwys cylchlythyr wythnosol Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Rydym yn monitro effaith y cyfyngiadau symud gyda phartneriaid perthnasol yn y gwasanaeth cyfiawnder troseddol a dioddefwyr a byddwn yn canolbwyntio ar reoli ac adfer yng nghyfarfodydd Bwrdd Strategaeth Cyfiawnder Troseddol Gwent, dan gadeiryddiaeth Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Trais yn seiliedig ar Anrhydedd, Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod a Phriodasau dan Orfod

Canolbwyntiodd ein Cydgynllun Cydraddoldeb Strategol ar yr angen i gynyddu adroddiadau ac i nodi achosion o Drais yn seiliedig ar Anrhydedd, Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod a Phriodasau dan Orfod nad ydynt yn cael eu hadrodd yn ddigonol yn genedlaethol. Mae Heddlu Gwent yn cynnal adolygiad craffu chwarterol o achosion

¹ <https://www.youtube.com/watch?v=ba3hPMq3d4>

o Drais yn seiliedig ar Anrhydedd, Priodasau dan Orfod ac Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod er mwyn sicrhau y gellir gwneud gwelliannau i'r gwasanaethau cyfredol a ddarperir.

Yn ystod 2019/20, cofnododd Heddlu Gwent bedwar digwyddiad yn ymwneud â Phriodasau dan Orfod (cynnydd o 50% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol) a 30 o ddigwyddiadau yn ymwneud â Thrais yn seiliedig ar Anrhydedd (cynnydd o 16 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol). Hefyd, derbyniwyd un adroddiad o Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod; fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad yw'r math hwn o drosedd yn cael ei adrodd yn ddigonol. Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid i godi ymwybyddiaeth mewn cymunedau ac yn annog yr unigolion sydd mewn perygl i adrodd digwyddiadau, neu eraill i adrodd ar eu rhan, ac yn monitro'r canlyniadau drwy ein partneriaethau a nifer yr adroddiadau a dderbynnir gan Heddlu Gwent.

Ym mis Gorffennaf 2019, fe wnaethom ni gefnogi digwyddiad BAWSO yng Nghasnewydd i goffáu dioddefwyr Trais yn seiliedig ar Anrhydedd. Siaradodd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn y digwyddiad a rhoddodd olwg gyffredinol o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a Heddlu Gwent i fynd i'r afael â Thrais yn seiliedig ar Anrhydedd, Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod a Phriodasau dan Orfod.

B. Trosedd Casineb

Eleni, rydym wedi gweld gostyngiad yn nifer y troseddau casineb a gofnodwyd yng Ngwent, fel sy'n wir mewn ardaloedd plismona eraill yn y DU. Mae digwyddiadau cenedlaethol a byd-eang, megis ymosodiadau terfysgol, ac ansefydlogrwydd gwleidyddol ac economaidd, yn parhau i effeithio ar nifer yr adroddiadau, a all arwain at gynydd neu ostyngiadau tymor byr yn nifer y digwyddiadau a gofnodir. Tua diwedd y cyfnod adrodd, gostyngodd nifer y troseddau casineb a gofnodwyd yn sylweddol oherwydd effaith COVID-19 a'r cyfyngiadau symud. Mae hyn wedi cyfrannu at y gostyngiad a gofnodwyd ar gyfer y flwyddyn.

Mae'r tabl canlynol yn cymharu nifer y troseddau casineb a gofnodwyd fesul maes ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf.

	2018/19	Cyfran	2019/20	Cyfran
<i>Hiliol</i>	481	61.1%	448	61.0%
<i>Homoffobig</i>	156	19.8%	161	21.9%
<i>Anabl</i>	109	13.8%	109	14.9%
<i>Crefyddol</i>	21	2.7%	7	1.0%
<i>Thrawsffobig</i>	20	2.5%	9	1.2%
Cyfanswm	787		734	

Er ei bod yn galonogol gweld cynnydd yng nghyfran yr adroddiadau o ddigwyddiadau homoffobig a digwyddiadau sy'n gysylltiedig ag anabledd, mae'r gostyngiadau ar gyfer digwyddiadau crefyddol a thrawsffobig yn siomedig. Yn ogystal â'r effeithiau y soniwyd amdanynt eisoes, rydym yn ymwybodol bod digwyddiadau crefyddol yn cael eu categorio fel digwyddiadau hiliol weithiau, a fydd yn effeithio ar gywirdeb y data.

Er na nodwyd unrhyw effeithiau penodol ar nifer yr adroddiadau trawsffobig, mae'n bosibl y gallai dechrau'r cyfyngiadau symud a phobl yn aros yn ddiogel gartref fod wedi cyfrannu at y gostyngiad.

Yn ystod 2019/20, atgyfeiriwyd oddeutu 90% o'r dioddefwyr troseddau casineb at wasanaethau arbenigol drwy Cysylltu Gwent², yn ogystal â chael cymorth oddi wrth Swyddogion Cymorth Troseddau Casineb Heddlu Gwent. Mae Heddlu Gwent hefyd wedi cysylltu eu prosesau atgyfeirio troseddau casineb ag ardaloedd arbenigol eraill ar draws yr heddlu, oherwydd yn aml gallai'r gwendidau sy'n effeithio ar ddioddefwyr troseddau casineb eu rhoi mewn perygl o fathau eraill o gamfanteisio a cham-drin hefyd. Yn ystod y flwyddyn, roedd bodddhad dioddefwyr troseddau casineb yn 70%; er bod hyn yn uwch na'r canran ar gyfer dioddefwyr mathau eraill o droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, fe hoffem weld gwelliant ychwanegol a byddwn yn parhau i fonitro ymateb Heddlu Gwent i droseddau casineb, a'r broses arolygu bodddhad dioddefwyr er mwyn sicrhau bod dioddefwyr yn cael y gwasanaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnynt.

Mae'r Cyfarfod Troseddau Casineb mewnol y mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn mynd iddo yn craffu ar berfformiad Heddlu Gwent yn y maes hwn. Rydym wedi cydnabod nad yw'r arferion cofnodi cyfredol yn rhoi'r darlun mwyaf cywir o droseddau casineb ac iddynt gymhelliant crefyddol, nac o droseddau casineb yn erbyn cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, sy'n cael eu cofnodi'n gyffredin fel troseddau casineb hiliol. Mae hyn yn cyfyngu ar ein dealltwriaeth o effaith y troseddau hyn ar gymunedau a allai fod yn amharod i adrodd digwyddiadau oherwydd eu bod yn ddrwgdybus o'r heddlu neu oherwydd eu profiadau ehangach o wahaniaethu cymdeithasol a rhagfarn, er enghraifft. Byddwn yn parhau i weithio gyda Heddlu Gwent a phartneriaid i ddeall achosion y gostyngiadau mewn adroddiadau ac i sicrhau bod arferion cofnodi'n effeithiol. Rydym yn ymwneud ag adolygu prosesau rheoli achosion troseddau casineb Heddlu Gwent hefyd, a fydd yn parhau drwy 2020/21.

Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Comisiynydd a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau wedi defnyddio cyfryngau traddodiadol a chymdeithasol i ymateb i ddigwyddiadau, gan ddarparu negeseuon o sicrwydd a chydlyniant cymdeithasol i'n cymunedau. Yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb 2019, fe wnaethom ni gefnogi Heddlu Gwent a phartneriaid yn eu gwaith o hysbysu ac o addysgu'r cyhoedd yn rhan o ymgyrch ymwybyddiaeth troseddau casineb ac fe wnaethom ni ymuno â nhw i ddathlu rhywfaint o'r gwaith a wnaed yn ein cymunedau o ran meithrin hyder ac annog pobl i adrodd digwyddiadau.

Ers mis Chwefror 2020, rydym wedi bod yn monitro effaith pandemig COVID-19 ar droseddau casineb, yn enwedig y rhai sy'n targedu cymuned De-ddwyrain Asia. Mae Tîm Amrywiaeth a Chynhwysiant Heddlu Gwent yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn wythnosol i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau, sy'n helpu i lywio ein trafodaethau ehangach gyda phartneriaid a chymunedau. Rydym wedi parhau i ymgysylltu â sefydliadau a grwpiau sy'n cefnogi cymunedau sy'n fwy tebygol o brofi troseddau casineb. O dan y Cydgyllun Cydraddoldeb Strategol newydd, byddwn yn parhau i weithio gyda nhw i godi ymwybyddiaeth o beth yw troseddau casineb, sut i'w

² www.connectgwent.org.uk

hadrodd nhw, y cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael, ac i'w hannog nhw i adrodd unrhyw brofiadau.

Yn allanol, mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn aelod o Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru ar gyfer Troseddau Casineb Llywodraeth Cymru. Mae'r Bwrdd hwn yn goruchwyllo materion allweddol yn strategol ac yn ein galluogi i ddylanwadu ar ymatebion Cymru gyfan a allai effeithio ar sut yr ydym yn cefnogi ein cymunedau lleol. Hefyd, mae'r Bwrdd yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu strategaethau perthnasol Llywodraeth Cymru, megis Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Cydlyniant Cymunedol 2017-2020. Yn ystod y flwyddyn, cydnabu'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, Jane Hutt, y cyfraniad cadarnhaol hwn tuag at y gwaith o ddatblygu strategaethau a pholisïau yng Nghymru, a swyddogaeth y Bwrdd o ran mynd i'r afael â throseddau casineb.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Bwrdd er mwyn canolbwyntio ar faterion megis cyfraddau erlyn troseddau casineb a thensiynau cymunedol, yn ogystal â chyfrannu at waith ymgysylltu ynglŷn â'r gwasanaethau sydd ar waith i gefnogi dioddefwyr, er mwyn gwella canlyniadau i bob dioddefwr troseddau casineb, yn lleol a ledled Cymru.

Amcan Cydraddoldeb Dau: Cyfreithlondeb a Thegwch

Sicrhau bod gweithgareddau plismona, yn enwedig stopio a chwilio a chyfarfodydd sy'n ymwneud â defnyddio grym, yn cael eu cynnal mewn modd sy'n gyfreithlon, yn gyfartal, yn anwahaniaethol, ac yn meithrin cysylltiadau cadarnhaol rhwng cymunedau a'r heddlu

Mae'r amcan hwn yn canolbwyntio ar sicrhau bod gweithgareddau plismona y nodwyd eu bod yn enwedig o ymwithiol ac yn debygol o effeithio'n anghyfartal ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig, megis stopio a chwilio, yn ddarostyngedig i waith craffu priodol, a bod cyfathrebiadau â'r cyhoedd yn cael eu gwella er mwyn rhoi sicrwydd a chael sylwadau.

A. Stopio a Chwilio

Mae stopio a chwilio yn parhau i fod yn faes dadleuol a all sbarduno drwgdybiaeth a thanseilio ffydd y gymuned yng ngwasanaethau'r heddlu pan ystyrir ei fod yn cael ei weithredu'n annheg. Mae'n debygol mai dyma'r cyfarfod mwyaf gwrthdrawol y bydd rhywun yn ei gael â'r heddlu. Yn ogystal â chael eu cadw'n gaeth yn gyhoeddus, mewn lle sy'n weladwy iawn i bobl sydd o gwmpas yn aml, maent wedyn yn ddarostyngedig i weithdrefn ymwithiol.

Mae llawer o bobl BAME a phobl ifanc yn dweud eu bod yn teimlo eu bod wedi eu 'targedu' nifer o weithiau heb unrhyw ganlyniad, a chydabyddir effeithiau negyddol yr hyn y cyfeirir ato'n aml fel 'tactegau gorfodi' ar berthynas yr heddlu â chymunedau yn genedlaethol. Mae Swyddfa Annibynnol Cwynion yr Heddlu (Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu gynt) wedi disgrifio stopio a chwilio fel 'prif achos tensiwn rhwng pobl ifanc a'r heddlu, mae'n debyg'. Pan effeithir ar ffydd y cyhoedd, gallai'r heddlu

gael eu heithrio o ffynonellau hanfodol o wybodaeth gymunedol oherwydd bod llai o ffydd yn arwain at lefelau is o gydweithrediad cyhoeddus.

Mae stopio a chwilio yn faes gweithgaredd gweithredol y mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a Heddlu Gwent yn craffu'n fanwl arno. Mae nifer o brosesau mewnol ac annibynnol ar waith i fonitro'r defnydd o bwerau'r heddlu yn lleol. Gan weithio gyda Heddlu Gwent, mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau'n sicrhau bod unrhyw faterion a nodir drwy'r prosesau hyn, neu unrhyw bryderon a godir gyda ni gan ein cymunedau, yn cael eu cydnabod ac yr eir i'r afael â nhw.

Yn ystod tymor yr haf 2019, cyhoeddodd y Swyddfa Gartref y dylid llacio'r cyfyngiad ar ddefnyddio stopio a chwilio o dan Adran 60 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994. Mae Adran 60 yn galluogi swyddogion yr heddlu i stopio a chwilio pobl hyd yn oed os nad oes ganddynt amheuan amdanynt. Os yw uwch-swyddog yn credu y bydd achosion o drais difrifol yn digwydd mewn maes penodol, neu y bydd pobl yn cario arfau, a bod angen defnyddio'r pwerau hyn yna gallant roi Adran 60 ar waith. Hyd yma, nid yw pwerau Adran 60 wedi eu defnyddio yng Ngwent. Fodd bynnag, pe ystyrid eu defnyddio unrhyw bryd, byddwn yn gweithio gyda Heddlu Gwent i sicrhau bod y prosesau gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth, yn dryloyw ac yn hybu hyder y cyhoedd.

Mae Heddlu Gwent wedi ymrwmo i fod yn agored ac yn dryloyw o ran eu defnydd o bwerau stopio a chwilio, a chyhoeddir data ar eu gwefan bob chwarter³. Mae gwneud hynny'n helpu i ddangos dilysrwydd drwy ymarfer bod yn agored ac yn dryloyw wrth ddefnyddio'r pwerau hyn. Yn unol â thueddiadau cenedlaethol, mae nifer y digwyddiadau stopio a chwilio yng Ngwent wedi cynyddu yn ystod y tair blynedd diwethaf, gan godi o 974 o unigolion a fu'n destun achos o stopio a chwilio (cyfanswm o 1145 o achosion) yn 2017/18, i 3142 o unigolion a fu'n destun achos o stopio a chwilio (cyfanswm o 3741 o achosion) yn 2019/20. Ni nodwyd unrhyw achosion penodol o'r cynnydd hwn. Dangosir dadansoddiad o weithgareddau stopio a chwilio ar gyfer 2019/20⁴ ar y dudalen ganlynol.

Hefyd, mae cyfraddau anghyfartaledd yng Ngwent wedi cynyddu yn unol â nifer yr achosion o stopio a chwilio a gofnodwyd. Ar gyfer 2019/20, roedd pobl BAME 5.1 gwaith yn fwy tebygol o fod yn destun stopio a chwilio o'u cymharu â phobl wynion. Ar gyfer y flwyddyn flaenorol, cyfrifwyd mai 4.7 gwaith oedd y tebygolrwydd, o'i gymharu â 4.3 gwaith yn genedlaethol⁵. Felly, mae cyfradd anghyfartaledd stopio a chwilio pobl BAME yng Ngwent wedi cynyddu. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd Heddlu Gwent nifer o ymgyrchoedd gweithredol yn ardal Casnewydd, sydd â'n poblogaethau lleiafrifoedd ethnig preswyl uchaf ac felly mae'n bosibl ei bod wedi cyfrannu at y cynnydd hwn. Mae argymhellion gwaith craffu Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau wedi cynnwys yr angen i Heddlu Gwent ddarparu gwybodaeth ddemograffig sy'n ymwneud â gweithgareddau gweithredol er mwyn sicrhau

³ <https://www.gwent.police.uk/amdanom-ni/eich-hawl-i-wybodaeth/stopio-a-chwilio/data-ac-ystadegau-stopio-a-chwilio/?L=1>

⁴ Mae'r data'n gywir ar 13/07/2020

⁵ https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/841408/police-powers-procedures-mar19-hosb2519.pdf

dealltwriaeth o effaith gweithrediadau'r heddlu ar gymunedau lleol, ac er mwyn nodi lle mae unrhyw weithgareddau anghyfartal wedi digwydd. Hyd yma, rydym yn pryderu bod yr wybodaeth hon wedi bod yn anghyson, a byddwn yn parhau i gefnogi Heddlu Gwent i wella tryloywder yn y maes hwn.

Yn 2019, rhoddodd Heddlu Gwent well brosesau mewnol ar waith ar gyfer monitro stopio a chwilio, er mwyn galluogi gwell dealltwriaeth o'i ddefnydd a'i effeithiau ar ein cymunedau. Gyda chymorth Arolygiaeth Cwnstabiliaeth, Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi, mae'r Adroddiad Perfformiad Stopio a Chwilio a Defnyddio Grym yn rhoi dadansoddiad manwl o weithgareddau, sy'n cael eu monitro yn y Cyfarfod Tactegau Gweithredol mewnol y mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn bresennol. Mae'r adroddiad wedi cadarnhau bod angen gwaith ychwanegol i ddeall y rhesymau dros anghyfartaledd yng Ngwent, sy'n gyson â'r argymhellion a wnaed gan brosesau craffu Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Bwriedir gwneud y gwaith hwn yn 2020/21.

Bydd y Swyddfa Gartref yn cyhoeddi data stopio a chwilio cenedlaethol ym mis Hydref 2020. Bydd hyn yn rhoi gwell dealltwriaeth o ddefnydd yr heddlu o bwerau ledled y DU ac yn darparu cyfraddau cyfartaledd mwy diweddar o ran stopio a chwilio. Bydd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddarparu meincnodau ac i lywio prosesau gwella a chraffu ar stopio a chwilio.

STOPIO A CHWILIO		Heddlu Gwent		Ebrill 2019 - Mawrth 2020		
Diben yr achosion o stopio: CYFFURIAU 70.1% EITEM Â LLAFN 7.4% EIDDO WEDI EI DDWYN 5.9%		Yn ôl Grŵp Oedran: 18-25 oed 1,097 26-35 oed 667 10-17 oed 645 36-45 oed 418		Yn ôl Ethnigrwydd Hunanddiffiniedig: GWYN 1,632 76.1% ANHYSBYS 164 7.6% ASIAIDD 156 7.3% DU 95 4.4% CYMYSG 67 3.1% ARALL 31 1.4%		Cyfanswm o 3741 o achosion o stopio
84.0% Stopio Pobl	16.0% Stopio Cerbydau	Y 3 Phrif Ganlyniad: DIM CAMAU PELLACH 2,708 ARESTIO 308 RHYBUDD CYFFURIAU 187		Ionawr 2020 oedd y mis gyda'r nifer mwyaf o achosion o stopio yn ystod y cyfnod		Dydd Sadwrn yw diwrnod prysuraf yr wythnos o ran achosion o stopio
Roedd 89.7% o'r bobl a stopiwyd yn Ddynion	Roedd 9.8% o'r bobl a stopiwyd yn Fenywod	Ardaloedd Heddlu: 2282 stop yn y Dwyrain 1143 stop yn y Gorllewin		Mae'r 'Dwyrain' yn cynnwys 4 Ardal Plismona yn y Gymdogaeth: - Sir Fynwy - Canol Casnewydd - Dwyrain Casnewydd - Gorllewin Casnewydd Mae'r 'Gorllewin' yn cynnwys 5 Ardal Plismona yn y Gymdogaeth: - Blaenau Gwent - Canol Caerffili - Gogledd Caerffili - De Caerffili - Torfaen		
Roedd 0.6% o'r bobl a stopiwyd yn nodi nad oeddynt yn Ddyn nac yn Fenyw						

Rydym yn parhau i weithio gyda Heddlu Gwent gan ymgysylltu â chymunedau ynghylch pam mae'r heddlu'n defnyddio stopio a chwilio, a hawliau pobl os cânt eu stopio. Dangosodd sylwadau o weithdai cyhoeddus a gynhaliwyd yn 2019 nifer o

heriau o ran teimladau a chanfyddiadau tuag at wasanaeth yr heddlu. Er hynny, drwy ymgysylltu'n rheolaidd, gobeithiwn ddarparu cyfleoedd gwerthfawr i ddeall yn well y rhesymau y tu ôl i hyn, yn ogystal â meithrin perthynas fwy cadarnhaol rhwng pobl ifanc, cymunedau BAME a'r heddlu. Mae cynlluniau hefyd i ymgysylltu â phobl hŷn BAME i ddeall sut mae eu profiadau a'u canfyddiadau o blismona yn effeithio ar genedlaethau iau. Byddwn yn parhau i rannu yr hyn a ddysgwyd gyda Heddlu Gwent er mwyn cynyddu ein cyd-ddealltwriaeth er mwyn nodi a gweithredu'n well lle mae angen newid.

Defnyddio Grym

Mae defnyddio grym yn faes gweithredol sy'n profi cynnydd mewn craffu yn genedlaethol. Mae'r Swyddfa Gartref yn cyhoeddi bwletin data blynyddol (a gyhoeddwyd ddiwethaf ym mis Rhagfyr 2019) sy'n rhoi gwybodaeth ynghylch defnyddio grym ar draws gwasanaeth yr heddlu yn y DU⁶. Fodd bynnag, nid yw'r ystadegau'n cynrychioli pob defnydd o rym yn y 43 heddlu yng Nghymru a Lloegr ac felly nid ydynt yn rhoi darlun cywir o'r effeithiau ar gymunedau ac unigolion sy'n agored i niwed.

Yn genedlaethol, yn 2018/19:

- Roedd 16% o ddigwyddiadau'n cynnwys pobl Dduon, y gyfradd uchaf ar gyfer ethnigrwydd BAME
- Roedd 13% o ddigwyddiadau'n cynnwys pobl yr oedd swyddogion yn credu bod ganddynt anabledd iechyd meddwl
- Daeth 72% o ddigwyddiadau i ben gydag arestiad
- Defnyddiwyd taser yn 88% o'r achosion gydag ethnigrwydd Du, Asiaidd neu Gymysg, o'u cymharu ag 83% ar gyfer Gwyn

Rydym wedi bod yn gweithio gyda Heddlu Gwent i sicrhau, pan ddefnyddir grym, ei fod yn deg, yn gyfartal ac yn gyfiawn. Yn seiliedig ar hyn, rydym wedi cefnogi Heddlu Gwent i wneud gwelliannau i'r broses fewnol drwy argymhellion a phresenoldeb rheolaidd yn y Cyfarfod Tactegau Gweithredol. Byddwn yn parhau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu llywodraethu mewnol er mwyn gallu monitro a goruchwyllo arferion grym yn effeithiol.

Mae'r ffeithlun canlynol yn rhoi dadansoddiad o'r gweithgareddau a oedd yn ymwneud â defnyddio grym yn 2019/20⁷. Dylid nodi bod yr holl fanylion am destunau'r data wedi eu cofnodi fel y'u canfuwyd gan y swyddog ac nad ydynt mor gywir â'r wybodaeth a gofnodwyd ar gyfer stopio a chwilio, a roddir gan y testun yn yr achos hwnnw. Hefyd, bydd nifer yr adroddiadau defnyddio grym yn fwy na nifer y bobl a oedd yn ddarostyngedig i'r defnydd o rym oherwydd y gofynion adrodd sydd ar waith.

Yng Ngwent:

⁶https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/853204/police-use-of-force-apr2018-mar2019-hosb3319.pdf

⁷ Mae'r data'n gywir ar 26/02/2020

- Nodwyd bod 3% o'r testunau data naill ai'n Ddu neu'n Asiaidd,
- Arweiodd 75% o'r achosion at arestiad
- Roedd 3% o'r achosion yn cynnwys Taser
- Cadwyd 3% o'r unigolion yn gaeth o dan Adran 136

DEFNYDDIO GRYM		Heddlu Gwent	Ebrill 2019 - Mawrth 2020	
Tacteg a Ddefnyddiwyd [Y 5 Prif Dacteg]: RHOI RHYWUN SY'N CYDYMFFURFIO MEWN GEFYNNAU 3,492 SGILIAU HEB ARFAU 2,091 CYFATHREBU TACTEGOL 1,999 RHOI RHYWUN NAD YW'N CYDYMFFURFIO MEWN GEFYNNAU 1,379 RHWYSTRO AR Y LLAWR 723		Yn ôl Ethnigrwydd Hunanddiffiniedig: GWYN 6,353 DU 238 ASIAIDD 224 CYMYSG 181 ANHYSBYS 90 ARALL 59	19.5 Digwyddiad bob dydd (ar gyfartaledd) lle cofnodir y Defnydd o Rym, ar draws yr heddlu Awst 2019 oedd y mis gyda'r nifer mwyaf o achosion o Ddefnyddio Grym yn ystod y cyfnod	Cyfanswm o 7145 o Achosion o Ddefnyddio Grym
Y Rheswm dros ei Defnyddio [Y 5 Prif Reswm]: I ARESTIO 2,982 ATAL NIWED 600 ATAL DIANC 454 CHWILIO 402 DIOGELU EI HUN 296		Fesul Canlyniad: Arestio 5,369 Arall 867 Cadw – Deddf Iechyd Meddwl 206 Anfon i'r Ysbyty 109	Roedd 206 o gofnodion yn cynnwys defnyddio / tynnu Taser	Dydd Sadwrn yw diwrnod prysuraf yr wythnos o ran Defnyddio Grym
Mae 80.0% o'r achosion o Ddefnyddio Grym ar Ddyn	Mae 19.5% o'r achosion Defnyddio Grym r Fenyw	Ardaloedd Heddlu: 3686 o Achosion o Ddefnyddio Grym yn y Dwyrain 3435 o Achosion o Ddefnyddio Grym yn y Gorllewin		
Roedd 0.1% o'r bobl y Defnyddiwyd Grym armynt yn nodi nad oeddynt yn Ddyn nac yn Fenyw		Mae'r 'Dwyrain' yn cynnwys 4 Ardal Plismona yn y Gymdogaeth: - Sir Fynwy - Canol Casnewydd - Dwyrain Casnewydd - Gorllewin Casnewydd Mae'r 'Gorllewin' yn cynnwys 5 Ardal Plismona yn y Gymdogaeth: - Blaenau Gwent - Canol Caerffili - Gogledd Caerffili - De Caerffili - Torfaen		

Bydd y Swyddfa Gartref yn cyhoeddi data cenedlaethol ynghylch defnyddio grym ym mis Hydref 2020, er mwyn galluogi gwell dealltwriaeth o ddefnydd yr heddlu o bwerau ledled y DU, gan gynnwys cyfraddau cyfartal wrth ddefnyddio grym pan fyddant yn ymdrin â phobl o gymunedau BAME o'u cymharu â'r rhai o gymunedau Gwyn. Bydd Heddlu Gwent a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn defnyddio'r wybodaeth hon i gefnogi'r defnydd o brosesau craffu a gwella gan yr heddlu, yn enwedig i fonitro'r effeithiau ar gyfer nodweddion gwarchoddedig penodol megis hil a'r rhai sy'n agored i niwed sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl neu anabledd.

Gwaith Craffu Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd

Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn cynnal proses hirdymor ar gyfer craffu'n gyhoeddus ar ddefnydd lleol o stopio a chwilio, a grym. Ym mis Medi 2017, ehangwyd hyn i gynnwys defnyddio grym, megis Taser, rhoi gefynnau ar ddwylo rhywun, defnyddio chwistrell PAVA, ac ati. Mae'r Panel Craffu ar Gyfreithlondeb yn parhau i gael ei gydgyssylltu a'i hwyluso gan Swyddog Polisi Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, gyda chefnogaeth Pennaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant

Heddlu Gwent. Daw aelodau o Grŵp Cynghori Annibynnol Gwent, sef aelodau o'r gymuned leol ar draws Gwent sy'n cynrychioli cefndiroedd amrywiol sydd wedi eu cyfochri â nodweddion gwarchoddedig.

Mae'r Panel Craffu ar Gyfreithlondeb yn cyfarfod bob chwarter, ac mae'r gwaith craffu'n newid bob yn ail rhwng stopio a chwilio a defnyddio grym. Yn y broses graffu, mae'r Panel Craffu ar Gyfreithlondeb yn gwneud y canlynol:

- Ystyried a thrafod data Heddlu Gwent ynghylch stopio a chwilio a defnyddio grym
- Cynnal adolygiad o'r holl gofnodion stopio a chwilio BAME sydd ar gael ar gyfer y cyfnod craffu o chwe mis, gan gymryd sampl o'r cofnodion sy'n weddill
- Adolygu detholiad ar hap o'r fideos a wnaed gan wisgo camera corff o ddigwyddiadau stopio a chwilio a defnyddio grym sydd ar gael (mae hyn yn cynnwys fideos sy'n ymwneud â chwynion y mae Adran Safonau Proffesiynol yr heddlu wedi ymdrin â nhw).

Darperir adroddiadau sy'n rhoi manylion am sesiynau craffu ac unrhyw argymhellion dilynol o ran gwelliannau, neu enghreifftiau o arferion da, i'r Comisiynydd ac arweinydd Heddlu Gwent fel y gall Tactegau Gweithredol gyflawni gwaith dilynol. Cyhoeddir adroddiadau ar wefan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd⁸ hefyd ac fe'u darperir i'r Grŵp Cynghori Annibynnol fel y gallant eu hystyried a darparu sylwadau amdanynt fel y bo'n briodol.

Yn ystod 2019/20, cyfarfu'r Panel Craffu ar Gyfreithlondeb bedair gwaith yn ôl y bwriad. Ar gyfer dau o'r cyfarfodydd hyn, fe wnaethom ni groesawu cynrychiolwyr o Arolygiaeth Cwnstabiliaeth, Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi, a oedd wedi mynegi diddordeb mewn arsylwi'r Panel er mwyn cynorthwyo eu dealltwriaeth ehangach o brosesau llywodraethu a chraffu Gwent. Mae hyn wedi helpu Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a Heddlu Gwent i wella trefniadau monitro mewnol yn barhaus, ac rydym yn croesawu cyfleoedd ychwanegol i weithio gydag Arolygiaeth Cwnstabiliaeth, Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi wrth inni barhau i ddeall a mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n ymwneud ag anghyfartaledd sy'n digwydd yn lleol. Nododd y Panel Craffu ar Gyfreithlondeb nifer o feysydd sy'n parhau i fod yn heriol yn ogystal â gwelliannau, sy'n gyson ag arolygiadau Arolygiaeth Cwnstabiliaeth, Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi ac adolygiadau mewnol Heddlu Gwent eu hunain. Lluniodd y rhain yr argymhellion a gyflwynwyd yn adroddiadau'r Panel Craffu ar Gyfreithlondeb.

Ar gyfer stopio a chwilio, roedd arsylwadau allweddol yn cynnwys y canlynol –

- Roedd ansawdd y data yn dangos gwelliannau yn gyffredinol, er bod rhai mân feysydd i'w gwella ar ôl. Mae gwaith mewnol yn mynd rhagddo i ddatrys y materion sy'n weddill a byddwn yn parhau i adolygu cynnydd yn ystod 2020/21.
- Credwyd bod y mwyafrif helaeth o'r seiliau yn rhesymol; fodd bynnag, erys rhywfaint o ansicrwydd ynghylch y sail dros achosion o stopio sy'n ymwneud â chanabis a'r canllawiau cenedlaethol a roddir i swyddogion. Adlewyrchwyd hyn

⁸ <https://www.gwent.pcc.police.uk/cy/tryloywder/eich-hawliau/stopio-a-chwilio/>

yn ôl i'r heddlu i'w ystyried mewn cysylltiad â hyfforddiant swyddogion a negeseuon mewnol a bydd yn parhau i gael ei fonitro.

- Cyffuriau oedd y prif reswm dros weithgarwch stopio a chwilio o hyd, sy'n adlewyrchu tueddiadau cenedlaethol. Mae hyn yn parhau i fod yn faes blaenoriaeth ar gyfer gwaith craffu sy'n gysylltiedig â sail a chanlyniadau i unigolion.
- Roedd unigolion a oedd yn nodi eu bod o ethnigrwydd Asiaidd yn profi'r gyfradd stopio a chwilio am gyffuriau uchaf yn gyson ar draws y grwpiau BAME. Roedd argymhellion y Panel Craffu ar Gyfreithlondeb yn cynnwys sylwadau oddi wrth Heddlu Gwent ar y rhesymau y tu ôl i hyn. Rhagwelir y bydd y gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 2020/21 yn darparu hyn.
- Unigolion a oedd yn nodi eu bod yn Ddu a brofodd y gyfradd uchaf o arestio oherwydd cyffuriau ar draws y grwpiau BAME. Unwaith eto, roedd argymhellion y Panel Craffu ar Gyfreithlondeb yn cynnwys sylwadau ynghylch y rhesymau y tu ôl i hyn.
- Roedd arsylwadau o fideos a wnaed gan wisgo camera corff yn gadarnhaol ar y cyfan, a nodwyd nifer o enghreifftiau o ymgysylltu'n rhagorol ag unigolion. Darparwyd sylwadau cadarnhaol mewn achosion o'r fath.

Ar gyfer defnyddio grym, roedd arsylwadau allweddol yn cynnwys y canlynol –

- Cynyddodd y cyfraddau cyflwyno ffurflenni yn sylweddol yn ystod y flwyddyn oherwydd pwyslais ym mhob rhan o'r llu ar gofnodi digwyddiadau'n effeithiol. Roedd hyn yn ganlyniad cadarnhaol ac yn un y byddwn yn parhau i'w fonitro mewn ymarferion craffu yn y dyfodol.
- Erys rhai gwelliannau sy'n ymwneud â chywirdeb gwybodaeth a nifer y ffurflenni a ddarperir gan swyddogion sy'n bresennol yn ystod digwyddiad, gan gynnwys sicrhau bod pob swyddog sy'n defnyddio grym wrth ymdrin ag unigolyn yn ystod digwyddiad yn cyflwyno ffurflen i gofnodi ei weithredoedd. Mae hyn wedi'i fwydo yn ôl i'r heddlu i'w ystyried mewn cysylltiad â hyfforddiant swyddogion a negeseuon mewnol a bydd yn parhau i gael ei fonitro.
- Mae'r defnydd o Adran 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn parhau i fod yn isel, oherwydd nad yw pobl yn cael eu cludo i'r ddalfa oni bai eu bod yn peryglu pobl eraill wrth gael eu cludo i'r ysbyty. Mae hwn yn ganlyniad cadarnhaol y byddwn yn parhau i'w fonitro yn y data ar gyfer y ddalfa.
- Unigolion a oedd yn nodi eu bod ag ethnigrwydd Asiaidd a brofodd y defnydd uchaf o rym ar draws pob grŵp BAME. Mae hyn yn adlewyrchu rhyngweithiadau stopio a chwilio yng Ngwent ac mae'n fater yr ydym yn gweithio gyda Heddlu Gwent i'w ddeall yn well.
- Ar gyfer pobl ifanc o dan 18 oed, y rhai a oedd yn nodi eu bod yn Ddu a brofodd y defnydd uchaf o rym o'u cymharu â grwpiau oedran eraill ac ethnigrwydd BAME. Nid yw'r rhesymau dros hyn yn glir felly byddwn yn gweithio gyda Heddlu Gwent i ddeall hyn yn well a sicrhau bod unrhyw welliannau a nodwyd yn cael eu gweithredu'n effeithiol.
- Roedd arsylwadau o fideos a wnaed gan wisgo camera corff yn gadarnhaol iawn, a gwelwyd swyddogion yn profi rhai sefyllfaoedd heriol iawn, a rhai

sefyllfaoedd peryglus. Darparwyd sylwadau cadarnhaol mewn achosion o'r fath.

Yn ystod dechrau 2020, cynhaliodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu archwiliad o argymhellion er mwyn cadarnhau cynnydd o'i gymharu â chanfyddiadau'r sesiynau Panel Craffu ar Gyfreithlondeb. Mae staff Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn cwrdd ag arweinydd yr heddlu dros Dactegau Gweithredol er mwyn adolygu'r ddogfen archwilio. Rhoddir sylwadau a'r wybodaeth ddiweddaraf ar gynnydd i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn gynnar yn 2020/21.

Bydd proses graffu'r Panel Craffu ar Gyfreithlondeb yn parhau i ddatblygu o dan y Cydgynllun Cydraddoldeb Strategol newydd. Byddwn yn adolygu yr aelodau er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r cymunedau yr effeithir arnynt fwyaf gan stopio a chwilio yn benodol, gan sicrhau dull ymatebol o ymdrin â materion sydd eisoes yn bodoli a materion sy'n dod i'r amlwg.

Byddwn yn parhau i gefnogi Heddlu Gwent wrth iddynt ymgymryd â gwaith i ddeall materion anghydraddoldeb yn well o ran defnyddio pwerau'r heddlu. Bydd hyn yn ein galluogi i sicrhau bod ein hymatebion i faterion sy'n ymwneud ag anghyfartaledd yn briodol, yn dryloyw ac yn meithrin ymddiriedaeth a hyder yn y cymunedau yr effeithir arnynt fwyaf.

B. Y Ddalfa

Roedd ein Cydgynllun Cydraddoldeb Strategol yn cynnwys nifer o gamau gweithredu penodol o ran gwella'r gwaith o graffu ar ddata ynghylch y ddalfa sy'n ymwneud â phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig. Caiff adolygiadau data eu cynnal yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod unrhyw dystiolaeth o anghyfartaledd yn cael ei nodi a'i deall. Mae'r tabl canlynol yn dangos ethnigrwydd pobl a oedd yn nalfa'r heddlu yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf. Yn ôl y data poblogaeth diweddaraf sydd ar gael, nid yw hyn yn dangos unrhyw dystiolaeth o anghyfartaledd.

Blwyddyn Ariannol

<i>Ethnigrwydd Hunanddiffiniedig fesul Grŵp Ethnig</i>	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20
<i>Gwyn</i>	90.5%	88.6%	89.0%	90.4%
<i>Grwpiau Ethnig Cymysg/Amlethnig</i>	1.7%	2.2%	1.8%	1.6%
<i>Asiaidd/Asiaidd Prydeinig</i>	3.1%	3.0%	3.4%	2.6%
<i>Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Prydeinig</i>	1.8%	2.4%	2.8%	2.9%
<i>Grŵp Ethnig Arall</i>	1.2%	1.4%	1.1%	1.5%
<i>Heb ei Ddatgan</i>	1.6%	2.4%	2.0%	1.0%
<i>Cyfanswm yr Arestiaidau</i>	9951	8327	9357	9152

Caiff chwilio gan ddadwisgo yn y ddalfa ei fonitro a'i archwilio hefyd am resymau cydymffurfio.

Caiff cyfnodau cadw o dan Adran 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl eu cofnodi ar QlikView a'u monitro'n rheolaidd yn y Cyfarfod Cydraddoldeb mewnol. Yn 2019/20, gwelwyd gostyngiad parhaus yn nifer y bobl a oedd yn cael eu cludo i ddalffa'r heddlu fel man diogel.

	2016	2017	2018/19	2019/20
% yn y ddalffa	26%	11%	4%	1.4%
% yn yr ysbyty	74%	89%	96%	98.6%

Rydym yn croesawu'r gostyngiad parhaus yn y defnydd o'r ddalffa ar gyfer cadw cleifion iechyd meddwl ac yn cydnabod y trefniadau partneriaeth sydd ar waith sydd wedi cyfrannu at y canlyniad hwn. Mae'r Gwasanaeth Cyswllt Cyfiawnder Troseddol wedi treialu cynnwys tîm o ymarferwyr iechyd meddwl yn y ddalffa. Bydd y tîm yn asesu ac yn cynorthwyo pobl yn y ddalffa a chanddynt iechyd meddwl gwael yn ystod yr adeg gynnau hon yn y broses cyfiawnder troseddol a byddant o bosibl yn cynnig llwybrau dargyfeiriol amgen mwy priodol oddi wrth y llwybr cyfiawnder troseddol.

Mae data ar gyfer yr holl blant a gedwir yn y ddalffa ar gael a chânt eu monitro'n rheolaidd gan uwch-reolwyr y ddalffa. Yn ystod y flwyddyn, cofnodwyd y niferoedd canlynol o blant yn y ddalffa:

Plant yn y ddalffa fesul grŵp ethnig (2019/20)

Gwyn	Du	Asiaidd	Arall
507	31	18	51

Mae Heddlu Gwent yn adrodd data i Lywodraeth Cymru fesul mis ar blant yn y ddalffa. Caiff pob achos lle bo plant wedi eu cadw ar ôl cael eu cyhuddo eu hadolygu'n unigol hefyd. Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddol hefyd yn monitro data Heddlu Gwent ynghylch pobl a gedwir yn y ddalffa er mwyn sicrhau bod unrhyw faterion sy'n ymwneud ag anghyfartaledd yn cael eu nodi a'u deall.

Yn dilyn arolygiad cynharach gan Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi i'r broses o amddiffyn plant, datblygwyd cynllun gweithredu i wella'r ffordd y mae Heddlu Gwent yn rheoli'r gwaith o gadw plant ac mae wedi cael ei fonitro gan y Bwrdd Perfformiad Gweithredol mewnol. Cynrychiolir Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddol yn y cyfarfod hwn er mwyn sicrhau goruchwyliaeth o blant yn y ddalffa ac maent yn darparu cymorth a her fel y bo'n briodol.

Cyfarfod amlasiantaethol sy'n adolygu wrth edrych yn ôl ar yr holl blant a phobl ifanc sy'n cael eu harestio a'u cadw yn nalffa'r heddlu rhwng 11:59pm a 5:00am (ystyrir hyn yn gadw yn y ddalffa "dros nos") yw Panel Gwent ar gyfer Monitro ac Adolygu'r Broses o Drosglwyddo Plant o Ddalffa'r Heddlu. Darperir adroddiad cynnydd i Fwrdd Strategaeth Cyfiawnder Troseddol Gwent bob blwyddyn i'w ystyried a'i drafod, a chaiff argymhellion a chymorth ar gyfer gwelliannau eu darparu fel y bo'n briodol.

Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer y plant sy'n cael eu harestio, fesul ethnigrwydd.

	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
<i>Cyfanswm yr Arestïadau</i>	9876	6923	7996	9152
<i>Gwyn</i>	93.0%	85.0%	89.21%	90.4%
<i>Asiaidd</i>	3.50%	2.80%	3.21%	2.60%
<i>Du</i>	3.50%	3.30%	2.90%	2.90%
<i>Arall</i>	-	-	2.89%	1.50%
<i>Cymysg</i>	-	-	1.79%	1.40%
<i>Heb ei Ddatgan</i>				1.0%

Er bod cyfanswm nifer y plant yn y ddalfa wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn o'i gymharu â 2018/19, rydym yn fodlon bod y trefniadau sydd ar waith a'r oruchwyliaeth a ddarperir gan y Panel mewn sefyllfa dda i nodi ac i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella. Byddwn yn parhau i adolygu dulliau partneriaeth o ymdrin â phlant yn y ddalfa ac yn sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw effeithiau anghyfartal yn effeithiol.

Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn parhau i gydgysylltu Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd gweithredol, gan ddefnyddio gwirfoddolwyr o'r gymuned i fynychu unedau'r ddalfa yn rheolaidd er mwyn adolygu ansawdd y gofal a ddarperir i bobl yn y ddalfa. Mae gwirfoddolwyr Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn cael hyfforddiant rheolaidd, gan gynnwys ar faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth, a chyhoeddir cofnodion cyfarfodydd chwarterol ar wefan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau⁹ sy'n darparu tryloywder a sicrwydd cyhoeddus o effeithiolrwydd y cynllun

Yn ystod 2019/20, gwnaed cyfanswm o 69 o ymweliadau dirybudd, gan arwain at:

- 62% o bobl yn y ddalfa yn ystod cyfnodau ymweliadau yn derbyn ymweliad gan yr Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd
- 100% o'r materion a nodwyd gan Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn cael sylw gan ringyll y ddalfa yn ystod yr ymweliad.

Yn dilyn asesiad fframwaith sicrhau ansawdd y cynllun gan y Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd, fe gadwodd ein cynllun ei statws 'Cydydffurfio â'r Cod'. Mae sylwadau gan ein gwirfoddolwyr Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd ynghylch y trefniadau cadw yn y ddalfa sydd ar waith yng Ngwent yn gadarnhaol iawn. Byddwn yn parhau i sicrhau bod y Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn effeithiol ac yn cyfrannu at hyder y gymuned o ran dalfa'r heddlu.

C. Cwynion

Tan fis Chwefror 2020, parhaodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau i gynnal yr Uned Ymateb i'r Cyhoedd. Rhwng mis Ebrill 2019 a mis Chwefror 2020, fe

⁹ <https://www.gwent.pcc.police.uk/en/about-us/my-volunteers/independent-custody-visitor-icv-scheme/independent-custody-visiting-scheme-meeting-minutes/>

ymdriniodd â 238 o achosion o anfodlonrwydd, a'u datrys, gan gefnogi pobl Gwent i gael atebion i feysydd a oedd yn peri pryder a'u hatal nhw rhag troi'n gwynion. Bellach, mae'r Uned Ymateb i'r Cyhoedd yn rhan o Adran Safonau Proffesiynol Heddlu Gwent.

Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn derbyn adroddiadau chwarterol oddi wrth Adran Safonau Proffesiynol Heddlu Gwent er mwyn monitro perfformiad a materion sy'n peri pryder. Mae'r meysydd yr adroddir arnynt yn cynnwys apeliadau, honiadau yn erbyn swyddogion a staff, achosion ymddygiad a'u canlyniadau, a fetio.

Ychydig iawn o wybodaeth a gafwyd mewn adroddiadau blaenorol yn ymwneud â nodweddion gwarchodedig ar gyfer achwynwyr; fodd bynnag, bu gwelliant mawr yn y broses o fonitro gwybodaeth yn ystod 2019/20, gan gwmpasu ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol ac anabledd. Oherwydd oediadau wrth adrodd, roedd yr wybodaeth ar gyfer 2019/20 yn anghyflawn ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Er hynny, dangosodd y data a oedd ar gael ar gyfer mis Ebrill i fis Rhagfyr 2019 fod nifer y cwynion a dderbyniwyd gan unigolion a oedd yn nodi eu bod yn Ddu, Asiaidd neu 'Arall' (y categorïau ethnigrwydd a ddarparwyd) yn isel, gyda nifer fwy o gwynion yn cael eu gwneud gan unigolion Asiaidd. Er nad yw natur y cwynion a wneir wedi ei chyfochri â'r broses o fonitro ethnigrwydd, mae'r proffil yn debyg i weithgareddau plismona gweithredol, gan gynnwys stopio a chwilio, a chadw pobl yn y ddalfa.

Ar gyfer cyfeiriadedd rhywiol, gwnaed mwyafrif y cwynion gan unigolion a oedd yn nodi eu bod yn heterorywiol, gyda nifer isel o gwynion yn cael eu gwneud gan bobl a oedd yn nodi eu bod yn Ddeurywiol, Hoyw/Lesbiaidd, neu 'Arall'.

Roedd data ar anabledd yn llai cyflawn o'u cymharu â chategorïau eraill, gyda nifer fach o unigolion yn nodi eu bod naill ai yn bobl a chanddynt iechyd meddwl gwael, anabledd corfforol, anhawster dysgu, neu nam ar y synhwyrau.

O'u gymharu â'r data ar gyfer 2018/19, mae'n ymddangos y bydd y proffiliau demograffig ar gyfer achwynwyr yn debyg ar gyfer y ddwy flynedd; fodd bynnag, mae adroddiad diwedd y flwyddyn yn rhoi darlun mwy cywir.

Rydym yn cydnabod bod rhai cymunedau yn llai tebygol o wneud cwyn pan fyddant yn teimlo eu bod wedi cael eu trin yn annheg neu y gwahaniaethwyd yn eu herbyn. Byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth o sut i wneud cwyn naill ai i Heddlu Gwent neu Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ac yn sicrhau bod ein prosesau cwyno yn hygyrch, yn effeithlon ac yn dryloyw.

Ers trydydd chwarter 2019/20, mae ystod o nodweddion gwarchodedig sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau fetio wedi eu cynnwys hefyd yn adroddiadau'r Adran Safonau Proffesiynol. Dros amser, bydd hyn yn ein galluogi i fonitro demograffeg ymgeiswyr ac asesu effaith y penderfyniadau a wneir. Wrth symud ymlaen, bydd y Panel Apeliadau Fetio yn adolygu pob achos lle bo ymgeisydd â nodweddion gwarchodedig wedi methu'r broses fetio (p'un a yw wedi cyflwyno apêl ai peidio). Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn aelod o'r Panel Apeliadau Fetio ac rydym yn croesawu'r datblygiadau cadarnhaol iawn hyn yn y prosesau fetio.

Amcan Cydraddoldeb Tri: Mynediad, Ymgysylltu a Chydlyniant

Er mwyn sicrhau bod safbwyntiau pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig yn dylanwadu ar ein gwasanaethau a ddarperir a bod y gwaith a wnawn yn hybu cynwysoldeb a chydlyniant

A. Mynediad

Ystad yr Heddlu

Yn ystod y flwyddyn, buom yn parhau i weithio i wella hygyrchedd y gwasanaethau plismona a ddarperir i gymunedau a allai brofi rhwystrau, yn ogystal â sicrhau bod amgylcheddau gwaith yn ddiogel ac yn hygyrch i'r holl bersonél. Mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am ystadau'r heddlu yng Ngwent ac mae ganddo Strategaeth Ystadau 10 mlynedd ar waith sy'n nodi'r weledigaeth, y sbardunau ar gyfer newid a thargedau ar gyfer gwelliannau, gan gydnabod cyfleoedd a chyfyngiadau cyfredol plismona modern. Wrth gyflawni'r Strategaeth Ystadau, mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn gweithio'n agos gyda Heddlu Gwent i ddarparu gwasanaeth plismona gweladwy a hygyrch sy'n ymateb i anghenion lleol ac sy'n rhoi sicrwydd i'r gymuned.

Yn dilyn archwiliad o ystadau'r heddlu yn 2018/19, cyflwynwyd nifer o argymhellion yn yr Adroddiadau Archwilio Mynediad, a gwblhawyd yn 2019/20. O ganlyniad, gwnaed nifer o welliannau ar draws yr ystad, gan gynnwys adleoli manau parcio hygyrch, darparu marciau cerddwyr amlwg, a darparu gwybodaeth Gymraeg ym manau cyhoeddus rhai gorsafedd heddlu. Roedd yr archwiliad yn cynnwys asesu cynllun ein Pencadlys newydd.

Mae'r Adran Ystadau wedi gweithio'n agos gyda Thîm Amrywiaeth a Chynhwysiant Heddlu Gwent, y Rhwydweithiau Cymorth Staff, ac aelodau o'r Grŵp Cynghori Annibynnol er mwyn sicrhau bod y cyfleuster Pencadlys newydd yn darparu gweithle sy'n annog cynwysoldeb i feithrin perthnasoedd cadarnhaol a pharchus rhwng ein holl staff, ac er mwyn ennyn hyder yn ein cymunedau y byddant hefyd yn cael eu trin yn deg ac yn urddasol. Roedd y gwelliannau i'r ystyriaethau presennol o ran ystadau a chynllunio ar gyfer yr adeilad newydd yn cynnwys:

- Sicrhau amgylchedd cwbl hygyrch sy'n ymateb i anghenion pobl ag anabledd corfforol a phobl â nam ar y synhwyrau
- Darparu cyfleusterau golchi penodol ar gyfer ymddygiad crefyddol
- Cynnwys ystafell fyfyrion ar gyfer ymddygiad crefyddol neu fyfyrion yn dawel
- Datblygu toiledau a chyfleusterau golchi a newid niwtral o ran rhywedd ym mhob rhan o'r adeilad
- Darparu cyfleusterau ar gyfer newid clytiaau babanod a storio llaeth o'r fron
- Sicrhau y bodlonir gofynion y Gymraeg o ran darpariaethau arwyddion ym mhob rhan o'r safle.

O ganlyniad i'r gwaith yma, gobeithiwn y bydd yn darparu amgylchedd sy'n cyfrannu at les y staff ac sy'n cefnogi rhagor o amrywiaeth ym mhob rhan o'n gweithlu plismona.

Mynediad at Gynlluniau Arallgyfeirio

Gan adeiladu ar lwyddiant y Cynllun Arallgyfeirio Braenaru i Fenywod blaenorol, ym mis Hydref 2019, fe lansiodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau Ddull System Gyfan Braenaru i Fenywod. Er mai dim ond i fenywod o ardal Casnewydd yr oedd y cynllun braenaru blaenorol ar gael, mae rhaglen Dull System Gyfan yn gweithredu ar draws ardal Heddlu Gwent gyfan. Mae'r rhaglen yn rhan o'n hymrwymiad i gefnogi Glasbrint Troseddau Menywod Llywodraeth Cymru dros Gymru.

Er mai ychydig iawn o droseddwyd yng Nghymru a Lloegr sy'n fenywod, mae llawer ohonynt wedi dioddef troseddau eu hunain, ar ôl profi cam-drin corfforol neu emosiynol yn aml. Gall cymryd rhan yn y system cyfiawnder troseddol gael effeithiau pellgyrhaeddol a hirbarhaol ar y menywod eu hunain, eu teuluoedd a'r cymunedau y maent yn byw ynddynt, a cheir effaith andwyol ar genedlaethau'r dyfodol. Mae Dull System Gyfan Braenaru i Fenywod yn rhoi cymorth cynhwysol i fenywod o'r adeg arestio i'r cyfnod yn y ddalfa ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Mae'n helpu cyfranogwyr i ddeall eu cryfderau, i oresgyn rhwystrau ac i fanteisio ar gyfleoedd i'w galluogi nhw i symud ymlaen heb gymryd rhan mewn ymddygiad troseddol mwyach.

Rhannwyd y gwaith o gyflawni'r cynllun Braenaru i Fenywod rhwng dau gontract yn ystod y flwyddyn. Yn ystod chwe mis cyntaf y contract Dull System Gyfan, cyfeiriwyd 120 o fenywod at y gwasanaeth er mwyn cyflawni gwaith ymyrryd, gan gynnwys 97 a drosglwyddwyd o'r gwasanaeth Braenaru i Fenywod blaenorol. Dalfa'r heddlu oedd prif ffynhonnell yr atgyfeiriadau, gydag atgyfeiriadau eraill yn cael eu gwneud gan Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent (GDAS). Mae hyn yn ganlyniad cadarnhaol iawn i'r gwasanaeth newydd, gan helpu menywod i wrthsefyll effaith Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod ar eu bywyd eu hunain a lleihau'r tebygolrwydd y bydd eu plant yn profi trawma.

Ar yr un pryd, roeddem yn falch o lansio'r Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar ar gyfer Oedolion Ifanc 18-25 oed. Wedi ei gyfochri â Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid Cymru Llywodraeth Cymru, mae'r gwasanaeth yn ceisio atal pobl ifanc rhag ymuno â'r system cyfiawnder troseddol, gan leihau eu cysylltiad â hi a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i'w harallgyfeirio, er mwyn eu cefnogi i fyw bywydau didrosedd. Y grŵp oedran hwn yw'r garfan fwyaf o bobl sy'n ymwneud â Heddlu Gwent ac mae'r Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar yn gyfle gwych i wneud gwahaniaeth sylweddol i fywydau nifer o'r unigolion hyn.

Ers mis Hydref 2019, mae 154 o bobl ifanc wedi cael ymyrraeth a chymorth drwy'r cynllun. Mae hyn yn ganlyniad arwyddocaol ar gyfer chwe mis cyntaf y rhaglen, gan helpu oedolion ifanc i osgoi'r rhwystrau y mae cofnod troseddol yn eu creu.

Cydnabuwyd y dylai gwybodaeth am berfformiad ar gyfer y cynlluniau fonitro ethnigrwydd y cyfranogwyr, o leiaf, er mwyn sicrhau bod cyfleoedd arallgyfeirio yn cael eu cynnig yn gyfartal i'r rhai sy'n bodloni'r meini prawf atgyfeirio. Bydd hyn yn cael ei chynnwys yn y gwaith ar gyfer 2020/21.

Cynllun Cadw'n Ddiogel Cymru

Yn 2019, fe wnaethom ni barhau i weithio gyda Heddlu Gwent i weithredu'r Cynllun Cadw'n Ddiogel. Datblygwyd cynllun Gwent yn wreiddiol gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a Heddlu Gwent ynghyd ag Anabledd Dysgu Cymru, grwpiau cymunedol lleol a phobl anabl, a'i nod yw cefnogi pobl sy'n agored i niwed a'r rhai ag anawsterau cyfathrebu i deimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus pan fyddant yn siarad â'r heddlu.

Yn ystod y flwyddyn, buom yn gweithio gyda Thîm Amrywiaeth a Chynhwysiant Heddlu Gwent i ddechrau hyrwyddo'r cynllun i grwpiau cymunedol lleol sy'n cefnogi pobl ag anawsterau dysgu. Hefyd, ar y cyd â'r Adran Ymyrraeth ac Atal, fe wnaethom ni ddarparu gwybodaeth Cadw'n Ddiogel ynghyd â Phrotocol Herbert, sef cynllun cenedlaethol ar gyfer pobl sy'n agored i niwed sydd mewn perygl o fynd ar goll o ganlyniad i ddementia neu gyflyrau cysylltiedig eraill. Fodd bynnag, oherwydd newidiadau personél yn y Tîm Amrywiaeth a Chynhwysiant ac effaith COVID-19 yn ddiweddarach, roedd y cynnydd yn gyfyngedig gyda dim ond 14 o bobl yn ymuno yn ystod y cam cychwynol. Yn ystod y cyfnod hwn, ni chofnodwyd unrhyw gyswllt â'r heddlu gan aelodau'r cynllun.

Mae cynlluniau ar waith ar gyfer 2020/21 i hybu Cadw'n Ddiogel yn ehangach ledled Gwent a byddwn yn parhau i fonitro ei ddefnydd dros amser ac yn sicrhau bod y cynllun yn gweithio'n effeithiol.

Mynediad at Wasanaethau a Chymorth i Ddiodefwyr

Yn ystod y flwyddyn, cymerodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau ran mewn gwaith gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i archwilio, deall a gwella'r gefnogaeth i ddiodefwyr troseddau BAME. Nododd y gweithdy fod y risg o annhegwch yn anghyfartal o uchel i'r rhai o gefndir BAME, a gall diodefwyr BAME fod yn llai tebygol o fod yn ymwybodol o wasanaethau cymorth, ac yn llai tebygol o'u defnyddio nhw, o'u cymharu â diodefwyr Gwyn. Yn benodol, mae plant a phobl ifanc o gymunedau BAME yn fwy tebygol o ddiodef troseddau, gan brofi materion megis trais difrifol a throseddau casineb yn anghyfartal.

O ganlyniad, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn bwriadu llunio canllawiau i gynorthwyo Comisiynwyr i ddarparu ac i gomisiynu gwasanaethau cymorth sy'n diwallu anghenion lleol diodefwyr yn eu hardal. Bydd y canllawiau yn ceisio cefnogi ymdrechion i wella effeithiolrwydd a'r gwaith o ymgysylltu â gwasanaethau cymorth i ddiodefwyr â diodefwyr lleiafrifoedd ethnig. Bydd disgwyl i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau ddangos yn glir sut y maent wedi bodloni'r safonau ansawdd yn y canllawiau, yn benodol o ran gwaith i gefnogi diodefwyr troseddau BAME. Er ein bod wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran gwella'r cymorth sydd ar gael ar draws ein cymunedau, bydd angen inni ddangos yn glir ein dealltwriaeth o anghenion diodefwyr lleiafrifoedd ethnig yng Ngwent wrth gomisiynu neu adolygu gwasanaethau cymorth.

Disgwylir i'r canllawiau gael eu lansio yn 2020/21. Yn y cyfamser, rydym wedi parhau i weithio gyda darparwyr gwasanaethau i adolygu'r gallu i gael gafael ar gymorth gan

ddefnyddwyr gwasanaethau a chodi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael i gymunedau nas cynrychiolir yn ddigonol. Bydd ein hymgysylltiad â defnyddwyr gwasanaethau a chymunedau yn ein helpu hefyd i ddeall unrhyw rwystrau i'r gallu i ddefnyddio gwasanaethau yn ogystal â nodi'r hyn sydd wedi gweithio'n dda i'r unigolion sydd wedi derbyn cymorth. Bydd y gwaith o fapio rhanddeiliaid a wneir gan ein Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn cefnogi ymgyrchoedd gwybodaeth sydd wedi eu targedu a gweithgareddau ymgysylltu strwythuredig sy'n gysylltiedig â phrosesau comisiynu.

B. Ymgysylltu a Chydlyniant

Mae cydlyniant cymunedol yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o atal a lleihau troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Cymuned sy'n rhannu mwy o ymdeimlad o berthyn, sy'n gwerthfawrogi ac yn parchu amrywiaeth cefndiroedd pobl; lle bo gan y rhai o wahanol gefndiroedd gyfleoedd bywyd tebyg, a lle bo perthnasoedd cryf a chadarnhaol yn datblygu rhwng pobl o wahanol gefndiroedd, boed yn y gweithle, mewn ysgolion neu mewn cymdogaethau yw cymuned gydlynol. Lle bo cydlyniant yn gyfyngedig neu'n cael ei danseilio, mae troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fwy tebygol o ddigwydd.

Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Heddlu Gwent a phartneriaid yn parhau i weithio gyda'i gilydd i greu Gwent sy'n integredig, yn gydlynol ac yn gryf. Caiff y gwaith hwn ei danategu gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) Llywodraeth Cymru a'u gweledigaeth am "Gymru o Gymunedau Cydlynol".

Rhan annatod o'n gwaith tuag at gydlyniant cymunedol yw ymgysylltu â chymunedau, rhanddeiliaid a phartneriaid, gyda'r nod o feithrin ymddiriedaeth a hyder mewn gwasanaethau cyhoeddus i fynd i'r afael â'r materion sy'n effeithio ar gydlyniant cymunedol. Yn ogystal â throseddau casineb y soniwyd amdanynt yn gynharach yn y ddogfen hon, mae gweithgareddau Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi cefnogi amrywiaeth o fentrau sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu a chydlyniant.

Drwy gydol y flwyddyn, mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi darparu negeseuon rheolaidd a chyson sy'n gysylltiedig â chydlyniant, troseddau casineb, cam-drin domestig a diogelwch cymunedol. Rydym yn gwneud defnydd helaeth o blatfformau cyfryngau cymdeithasol a thraddodiadol yn ogystal ag ymgysylltu wyneb yn wyneb.

Mae'r Comisiynydd wedi cwrdd â grwpiau cymunedol a grwpiau ffydd hefyd er mwyn trafod eu pryderon a'u ffyrdd o wella ffydd a hyder eu cymunedau yn ein gwasanaethau plismona a'u hymgysylltiadau â nhw.

Mae'r Strategaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu ar y cyd rhwng Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Heddlu Gwent, a gyhoeddwyd yn 2018, yn ceisio sicrhau ymgysylltiad effeithiol parhaus ag aelodau o'r cyhoedd gan gynnwys pobl sy'n agored i niwed, dioddefwyr troseddau, grwpiau cymunedol, dinasyddion nas clywir yn aml, a phartneriaid strategol eraill. Ei nod hefyd yw sicrhau, cyn belled ag y bo modd, fod pob aelod o'r gymuned yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymgysylltu.

Mae'r Strategaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau ymgysylltu i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn ystod 2019/20, fel y nodir yn yr adroddiad hwn. Byddwn yn parhau i adolygu gweithgareddau ymgysylltu Heddlu Gwent o dan yr amcanion Ymgysylltu a Chyfathrebu, er mwyn asesu effeithiolrwydd eu strategaethau a'u hymgyrchoedd a darparu unrhyw argymhellion ar gyfer gwelliannau lle nodir bylchau.

Cronfa Gymunedol yr Heddlu

Nod Cronfa Gymunedol yr Heddlu y Comisiynydd yw galluogi plant a phobl ifanc yng Ngwent i fod yn ddiogel, yn iach ac yn hapus. Mae'n gwneud hyn drwy gefnogi prosiectau sy'n gweithio gyda phobl ifanc sydd mewn perygl oherwydd trosedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol neu sy'n chwarae rhan yn y gweithgareddau hyn.

Mae gwaith cymunedol mewn partneriaeth yn ganolog i lwyddiant Cronfa Gymunedol yr Heddlu, gyda thimau heddlu lleol yn gweithio wrth wraidd y grwpiau cymunedol hyn. Wrth weithredu fel y cyswllt rhwng Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau, Heddlu Gwent a'r buddiolwyr, mae timau'r heddlu yn rhoi dealltwriaeth inni o faterion lleol fel y gallwn wella ein gwybodaeth wrth ystyried ceisiadau a chynnig cymorth i'r sefydliadau yn ystod y broses ymgeisio ac wrth gyflawni eu prosiectau. Mae ystyriaethau cydraddoldeb, amrywiaeth a hygyrchedd yn rhan o'n prosesau gwneud penderfyniadau, sy'n cefnogi ein dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Yn 2019/20, derbyniodd wyth sefydliad gyllid, gyda dau sefydliad arall yn cael cyllid ail flwyddyn, yn unol ag amodau. Dyfarnwyd cyfanswm o bron i £300 000 yn ystod y flwyddyn. Mae'r prosiectau a'r ymyriadau a gefnogir yn cynnwys:

- Prosiect Sanctuary yng Nghasnewydd sy'n cefnogi plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed sydd wedi cael eu masnachu i'r DU, neu sydd wedi cyrraedd yn ceisio lloches, llawer ohonynt yn agored i gael eu cam-fanteisio gan gangiau troseddol. Mae'r cyllid gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn talu am weithiwr cymorth penodedig i weithio gyda phlant ac oedolion ifanc, gan eu helpu o bosibl i osgoi cymryd rhan mewn troseddau ac i integreiddio â thrigolion lleol.
- Prosiect Cymru Creations ym Mlaenau Gwent sydd wedi cefnogi plant lleol i weithio gyda chwmni cyfryngau arobryn i greu ffilmiau byr sy'n canolbwyntio ar bynciau megis gyrru yn beryglus, ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau casineb.
- Prosiect 'School's Out' leuenctid Maendy sy'n ymgysylltu â phobl ifanc o amrywiaeth o gefndiroedd ethnig i gynnig gweithgareddau sy'n annog cyfranogiad, cydlyniant a gwaith cymorth er mwyn mynd i'r afael â thensiynau diwylliannol a chymunedol. Mae'r cyllid yn galluogi cyfle cyfartal i unigolion gymryd rhan yn y gweithgareddau a gynigir gan y prosiect.

Mae plant sy'n cymryd rhan yn y prosiectau hyn wedi cyflawni canlyniadau gan gynnwys gwell iechyd a lles, rhagor o ymdeimlad o ddiogelwch, perthnasoedd mwy cadarnhaol ag eraill, ac maent wedi gallu gwneud dewisiadau bywyd yn fwy gwybodus

ac yn well. Maent wedi cael cymorth hefyd i osgoi trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Gwirfoddolwyr yr Heddlu

Rydym yn parhau i gefnogi rhaglen Heddlu Bach/Mini Police sydd wedi parhau i dyfu yn ystod 2019/20. Ym mis Medi 2019, cynhaliwyd y rhaglen mewn 50 o ysgolion cynradd ledled pob un o'r pum ardal awdurdod lleol yng Ngwent. Ers iddi gael ei chyflwyno yn wreiddiol gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a Heddlu Gwent yn 2017, fe ehangodd y rhaglen ei hamrywiaeth a'i chynnwys hefyd ym mis Tachwedd 2019 gan lansio mewn ysgol Anghenion Addysgol Arbennig, ac ym mis Ionawr 2020, fe groesawodd Mosg Berea raglen Heddlu Bach ar gyfer pobl ifanc yn ei gymuned¹⁰.

Mae'r cyfleoedd hyn yn caniatáu i blant ac ysgolion sy'n ymuno â'r rhaglen gymryd rhan mewn mynd i'r afael â materion lleol. Tynnir sylw at hyn gan y plant, ac mae'n caniatáu iddynt fod yn gyfrifol am y gweithgareddau gan ymgysylltu â Thimau Plismona yn y Gymdogaeth leol. Hefyd, mae'r rhaglen yn hybu ac yn cefnogi'r bobl ifanc i ddod yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus yn y dyfodol, gan ddatblygu eu dealltwriaeth o'r heddlu a'u cymuned. Mae hyn yn cyfrannu at ragor o gydlyniant cymunedol drwy hybu hyder yn Heddlu Gwent ac egwyddorion plismona drwy gydsyniad, yn ogystal â chynyddu cyfathrebiadau â'r cymunedau dan sylw. Yn ystod y flwyddyn, ymgysylltodd 944 o bobl ifanc o 27 o gefndiroedd diwylliannol, o leiaf, â'r rhaglen. Roedd 15 o unigolion yn nodi eu bod yn anabl.

Mae menter Heddlu Bach wedi ychwanegu gwerth at raglen Cadetiaid yr Heddlu sydd eisoes wedi ei sefydlu, sydd hefyd wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl ifanc yn ein cymunedau sy'n cymryd rhan. Ar hyn o bryd, mae'r rhaglen yn ymgysylltu â 78 o bobl ifanc ledled Gwent. Mae'r rhaglen¹¹ Cadetiaid yn hybu dealltwriaeth ymarferol o blismona ymhlith yr holl bobl ifanc. Mae ganddi'r nod hefyd o annog dinasyddiaeth dda a chefnogi pobl ifanc i ddod yn oedolion cyfrifol, aeddfed a charedig. Aelodau ifanc o'r gymuned, rhwng 14 a 18 oed, sy'n cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau a digwyddiadau yw cadetiaid. Yn ogystal â dysgu am weithdrefnau'r heddlu a'r gyfraith, mae cadetiaid yn chwarae rhan hanfodol mewn digwyddiadau cymunedol hefyd, gan ymgysylltu ag aelodau o'r cyhoedd a'u haddysgu am atal troseddau.

Grŵp Cyngori Annibynnol

Mae Heddlu Gwent yn parhau i gydlynu'r Grŵp Cyngori Annibynnol, sef grŵp gwirfoddol sy'n cynnwys aelodau o'r cyhoedd sy'n annibynnol ar yr heddlu. Swyddogaeth y Grŵp Cyngori Annibynnol yw adolygu a herio arferion plismona mewn ffordd adeiladol, gan helpu i wella gwasanaethau plismona i'r cyhoedd.

¹⁰ <https://www.gwent.pcc.police.uk/en/news/new-heddlu-bach-unit-in-blaina/>

¹¹ <https://www.gwent.police.uk/cy/ymunwch-a-ni/cadetiaid-yr-heddlu/>

Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi datblygu perthynas â'r Grŵp Cynghori Annibynnol, ac maent yn mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd er mwyn rhoi sylwadau ar blismona a gweithgareddau Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Yn ogystal ag ymgysylltu â'r Grŵp Cynghori Annibynnol yn rhan o'r Panel Craffu ar Gyfreithlondeb, mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn croesawu cyfranogiad aelodau yn eu gweithgareddau, gan ddarparu safbwyntiau cymunedol ychwanegol a chefnogaeth a her pan fo hynny'n briodol.

Yn ystod 2020/21, bydd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn parhau i weithio gyda'r Grŵp Cynghori Annibynnol a Heddlu Gwent er mwyn parhau i gynnwys aelodau mewn gweithgareddau a dylanwadu ar waith Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, sydd wedi ei gyfochri â Chynllun Gweithredu'r Grŵp Cynghori Annibynnol. Bydd Cynllun Gweithredu'r Grŵp Cynghori Annibynnol yn helpu i sicrhau bod aelodau'n gallu cymryd rhan lawn yn y cyfleoedd a ddarperir drwy eu cyfranogiad, gan gyfochri eu gwybodaeth a'u harbenigedd â'r maes mwyaf priodol o fusnes yr heddlu.

Mae'r Grŵp Cynghori Annibynnol yn ymwneud hefyd â Phwyllgor Moeseg Heddlu Gwent, sef grŵp sy'n rhoi cyngor a/neu ganllawiau mewn cysylltiad â chyfyng-gyngor moesegol a gyflwynir i'r Pwyllgor. Mae aelodau craidd eraill yn cynnwys swyddogion yr heddlu, staff a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Defnyddiwyd y cyngor a roddwyd gan y Pwyllgor i lywio'r broses o wneud penderfyniadau ar draws ystod o weithgareddau strategol a gweithredol, neu i roi sicrwydd bod y camau a gymerwyd yn briodol ar y pryd.

Hawl i Holi Ieuentid

Ym mis Mawrth 2020, cynhaliwyd ein hail ddigwyddiad Hawl i Holi Ieuentid, a gynhaliwyd mewn partneriaeth â Fforwm Ieuentid Rhanbarthol Gwent. Mae'r digwyddiad blynyddol yn rhoi cyfle i bobl ifanc holi panel o wneuthurwyr penderfyniadau allweddol lleol ar amrywiaeth o bynciau sy'n bwysig iddynt. Roedd dros 100 o bobl ifanc yn bresennol, gan gynrychioli cymysgedd amrywiol o ddiwylliannau a chefnidiroedd o bob rhan o ardaloedd y pum awdurdod lleol.

Roedd y panel yn cynnwys Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Dirprwy Brif Gwnstabl Heddlu Gwent Amanda Blakeman, Dr Liz Gregory (cyd-bennaeth y gwasanaeth seicoleg plant a theuluoedd yng Ngwent), Dr Jane Dicken (ymgyngorydd mewn gofal iechyd rhywiol ac atgenhedlol) a Loren Henry (sylfaenydd prosiect ieuentid Urban Circle). Roedd y pynciau a godwyd yn cynnwys iechyd meddwl, troseddau sy'n ymwneud â chyllyll, cam-drin domestig, cam-fanteisio a seiberdroseddu.

Hefyd, rhoddwyd cyfle i'r rhai a oedd yn bresennol roi eu safbwyntiau ar Amcanion Cydraddoldeb arfaethedig ar y cyd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Heddlu Gwent ar gyfer 2020-24. Darparodd 30 o bobl ifanc eu safbwyntiau ar yr Amcanion a meysydd cyflawni ar thema yn rhan o ymarfer pleidleisio; cafwyd wyth papur ymateb ychwanegol ar ôl y digwyddiad. Roedd y sylwadau'n cynnwys:

- Dynion sy'n goroesi cam-drin domestig
- Profiadau stopio a chwilio
- Gweithio ac ymgysylltu â phobl ifanc
- Cydraddoldeb rhywiol
- Recriwtio teg a thryloyw.

Roedd y sylwadau'r cyfranogwyr ynghylch y cyfle i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad yn gadarnhaol iawn, ac roeddent yn annog ymgysylltu tebyg yn y dyfodol. Defnyddiwyd yr ymatebion a gafwyd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Cydgyllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer 2020-24.

Ymgysylltu â Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid i ddatblygu ein dealltwriaeth o'r materion sy'n wynebu ein cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag ymgysylltu â gwasanaethau cyhoeddus.

Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn aelod o Fforwm Sipsiwn, Roma a Theithwyr Gwent a sefydlwyd gyda'r nod o feithrin mwy o gyswllt â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gan ddatblygu dealltwriaeth o'u hanghenion fel cymuned. Nod y fforwm yw sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ardal blismona Gwent o safon uchel ac yn cael eu darparu o fewn cyd-destun gwybodus, cydweithredol ac amlasiantaethol.

Mae'r fforwm yn bwriadu meithrin persbectif a rennir rhwng yr heddlu, asiantaethau partner a chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy'n annog ac yn cefnogi aelodau o'r cymunedau hynny i adrodd digwyddiadau a throseddau drwy well ymddiriedaeth a thrwy wneud y gwasanaethau hynny yn fwy hygyrch. Mae hyn yn golygu gweithredu fframwaith partneriaeth a chyfathrebu clir a sicrhau bod penderfyniadau cyson ac amserol yn cael eu gwneud i gysylltu strategaethau a gwasanaethau sy'n effeithio ar gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae'r fforwm yn annog atebolrwydd a sylwadau hefyd er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir gennym yn cael eu hadolygu a'u gwella'n barhaus.

Rydym wedi gwella ein hymgysylltiad â sefydliadau sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, megis TGP Cymru a'u rhaglen Teithio Ymlaen. Yn ystod y flwyddyn, buom yn gweithio gyda thîm Teithio Ymlaen yn rhan o ddull amlasiantaethol o fynd i'r afael â materion cydlyniant penodol yng Nghasnewydd. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo; fodd bynnag, mae arwyddion cynnar yn dangos potensial am nifer o ganlyniadau cadarnhaol, i'r gymuned ehangach yn ogystal â'r unigolion dan sylw.

Yn ystod 2020/21, byddwn yn parhau i ddatblygu cyfleoedd i ymgysylltu â phartneriaid ehangach a chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr er mwyn cefnogi gwelliannau i'r gwasanaethau a ddarperir, gan eu gwneud yn fwy hygyrch a hybu cydlyniant cymunedol.

Ymgysylltu â'r Gyllideb

Am 13 wythnos rhwng 14 Hydref 2019 a 12 Ionawr 2020, cynhaliwyd ein rhaglen flynyddol ar gyfer ymgysylltu â'r gyllideb sy'n ymwneud â lefelau archebiannau a gwariant. Prif bwyslais gweithgareddau'r arolwg oedd ymgysylltu wyneb yn wyneb. Roedd staff Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn bresennol mewn 25 o ddigwyddiadau ledled Gwent, gyda phedwar digwyddiad penodol ym mhob ardal awdurdod lleol. Derbyniwyd cyfanswm o 1,730 o ymatebion, gyda 1,086 o bobl yn cwblhau'r arolwg yn ystod y digwyddiadau. Roedd mwyafrif yr ymatebion a gafwyd yn Saesneg, ac eithrio 37 o ymatebion Cymraeg. Mae hyn yn welliant parhaus o'i gymharu â'r ddwy flynedd ddiwethaf – cafwyd 21 o ymatebion Cymraeg yn 2018/19, ac yn 2017/19, ni chafwyd ond un.

Er bod mwyafrif y bobl wedi disgrifio eu hunain fel Gwyn Prydeinig, nid oedd hyn yn wir ar gyfer 114 o bobl (6.9% o ymatebwyr) a gwblhaodd yr arolwg. O'r rhain, roedd 77 o bobl (4.6%) yn nodi eu bod yn aelodau sy'n perthyn i grŵp BAME. 4.57% yw poblogaeth BAME gyfartalog Gwent¹². Mae hyn yn ganlyniad cadarnhaol iawn, sy'n dangos tystiolaeth o'n gwaith tuag at ymgysylltu cynhwysol â'n cymunedau. Defnyddiwyd sylwadau a gafwyd o'r ymarfer ymgysylltu i lywio penderfyniadau'r Comisiynydd ynghylch lefel yr archebiannau ar gyfer 2020/21.

Digwyddiadau Coffáu a Dathlu

Ar 22 Ebrill, fe ymunodd y Comisiynydd â swyddogion Heddlu Gwent, staff a chynrychiolwyr cymunedol i nodi'r Diwrnod Stephen Lawrence cenedlaethol cyntaf, gan goffáu'r glaslanc o dde-ddwyrain Llundain a lofruddiwyd mewn ymosodiad hiliol ym 1993.

Ar 12 Gorffennaf, fe wnaethom ymuno â Heddlu Gwent a heddluoedd a sefydliadau ledled y DU ar gyfer wythnos Goffáu Srebenica. Mae wythnos Goffáu Srebenica yn coffáu'r gweithredoedd treisgar a gelyniaethol a chyflafan pobloedd Bosnia-Herzegovina yn ystod Rhyfel y Balcanau, ac yn benodol yr ardal o amgylch tref Srebenica lle cafodd 8,000 o ddynion a bechgyn Bosniaidd eu lladd yn systematig. Tynnodd Tîm Prif Swyddogion Heddlu Gwent a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd sylw at ymrwymiad Gwent i gydlyniant cymunedol, gan arwain at funud o dawelwch a gosod torch ym Mhencadlys yr Heddlu.

Ymunodd y Comisiynydd a'r staff â Heddlu Gwent, Caplaniaid heddlu, staff LGBT, arweinwyr ffydd ac aelodau o'r gymuned Iddewig i nodi Diwrnod Cofio'r Holocaust ym mis Ionawr 2020. Daeth y coffâd hwn â phobl o lawer o wahanol gymunedau at ei gilydd i rannu eu profiadau a'u myfyrdodau ar hil-laddiad ledled y byd.

Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a Heddlu Gwent wedi cefnogi Pride Cymru, gan ymuno â heddluoedd eraill Cymru i hyrwyddo plismona fel proffesiwn sy'n croesawu'r gymuned LGBT. Yn ystod 2019, cynhaliwyd digwyddiad LGBT

¹² ONS, mis Medi 2019

enedlaethol yr heddlu yng Nghymru ac fe chwaraeodd y Rhwydwaith Cymorth Staff ran enfawr yn ei lwyddiant.

Roeddem yn falch o gefnogi digwyddiad Mis Hanes Pobl Dduon Race Council Cymru am yr ail flwyddyn yn olynol. Dathlodd y digwyddiad ar 21 Hydref y 'Movers, Shakers and Legacy Makers' yn y Gymru amlddiwylliannol sydd ohoni. Siaradodd y Comisiynydd yn y digwyddiad, gan dynnu sylw at rywfaint o'r gwaith y mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Heddlu Gwent wedi ei wneud i fynd i'r afael â materion anghydraddoldeb.

Yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth gyda'n staff, gallwn godi ymwybyddiaeth gyda'r cyhoedd ehangach o'u pwysigrwydd a'r effaith barhaol ar ein cymunedau yng Ngwent drwy gymryd rhan mewn digwyddiadau o'r fath a'u cefnogi. Mae hyn yn helpu i lywio ein dealltwriaeth o rai o'r profiadau a allai gyfrannu at heriau o ran cyflawni cydlyniant cymunedol.

Amcan Cydraddoldeb Pedwar: Creu Gweithlu Cynrychioliadol

Gweithio tuag at weithlu cynrychioliadol sy'n adlewyrchu demograffeg Gwent, a sicrhau bod pawb sy'n gweithio i Heddlu Gwent a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn cael eu trin yn deg a heb wahaniaethu

Mae cymunedau nad ydynt yn gweld eu hunain yn cael eu hadlewyrchu yn nemograffeg eu gwasanaeth heddlu yn llai tebygol o fod â hyder yn y ffordd y cânt eu plismona, a all arwain at densiynau cymunedol sylweddol. Mae cymunedau sy'n newid yn gyflym yn golygu hefyd fod angen inni sicrhau'n weithredol fod gan ein swyddogion heddlu ystod o sgiliau a gwybodaeth (er enghraifft, dealltwriaeth ieithyddol a diwylliannol) sy'n eu cyfarparu i wneud eu gwaith yn effeithiol.

Rydym wedi parhau i gefnogi a monitro gwaith Heddlu Gwent tuag at ddod yn weithlu sy'n cynrychioli'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Mae presenoldeb mewn cyfarfodydd mewnol yn darparu goruchwyliaeth, gan graffu ar y cynnydd o'i gymharu â Strategaeth a Chynllun Gweithredu Gweithlu Cynrychioliadol Heddlu Gwent a gwaith y Swyddogion Allgymorth Gweithredu Cadarnhaol. Er ein bod yn cydnabod bod y Strategaeth yn ymwneud â gwella'r holl dangynrychiolaeth, yn unol â gweithgareddau cenedlaethol a gwaith blaenoriaeth lleol a wnaed yn ystod 2019/20, mae wedi canolbwyntio ar gynyddu nifer y swyddogion heddlu BAME. Mae hyn wedi cynnwys:

- Digwyddiadau ymwybyddiaeth recriwtio rheolaidd mewn ardaloedd lle bo cyfran uchel o drigolion BAME
- Cynnig mentoriaid i bob ymgeisydd BAME, sy'n darparu cymorth addasedig drwy'r holl broses recriwtio, megis gweithdai'r Ganolfan Asesu a sesiynau paratoi ar gyfer cyfweiliad
- Cyflwyno cyflwyniadau gweithlu cynrychioliadol 'cynhwysol' yn sesiynau cyfarwyddo yr Arolygwyr ar draws Awdurdodau Cynllunio Lleol y Dwyrain a'r Gorllewin a chydweithio â Swyddogion Cymorth Cymunedol a Swyddogion Cymdogaeth ar fentrau plismona sy'n effeithio ar gymunedau amrywiol yng Ngwent.

Roedd y gwaith hwn yn cefnogi ymgyrch recriwtio Heddlu Gwent ym mis Ionawr 2020 a oedd yn gysylltiedig ag Ymgyrch Uplift. Roedd cyfanswm nifer y ceisiadau a dderbyniwyd yn is na chyfanswm yr ymgyrch flaenorol ym mis Medi 2019, oherwydd bod pob heddlu'n cynnal eu hymgyrchoedd ar yr un pryd o bosibl. Roedd nifer y ceisiadau oddi wrth ymgeiswyr BAME yr un fath ar gyfer y ddau gyfnod. Cynnig mentora i bob ymgeisydd BAME ynghyd â chymorth addasedig drwy'r holl broses recriwtio, megis Gweithdai'r Canolfan Asesu a chynlluniau paratoi ar gyfer cyfweiliad. Cynhelir canolfannau o'r fath mewn partneriaeth â Phrifysgol De Cymru. Nododd pump o'r wyth ymgeisydd BAME ar gyfer mis Ionawr yr hoffent dderbyn cymorth gweithredu cadarnhaol yn ystod eu prosesau asesu. O'r rhain, fe ymgysylltodd dau â sesiynau Prifysgol De Cymru, a fydd yn cynnwys canolfan asesu ffug. Neilltuwyd mentor i bob un o'r pump, i'w cefnogi drwy'r broses a fydd yn parhau yn 2020/21.

Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn monitro adroddiadau Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau Heddlu Gwent, a fydd yn cael eu hymgorffori i'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu Gweithlu Cynrychioliadol. Mewn cysylltiad â'r dadansoddiad a wnaed, nifer y swyddogion heddlu a staff heddlu 'perthnasol' oedd 2,082 a oedd yn cynnwys 953 o fenywod a 1,129 o ddynion ar 31 Mawrth 2019 (o'i gymharu ag 888 o fenywod a 1,100 o ddynion y flwyddyn flaenorol). Adroddir ar y bwch cyflog yn flynyddol. I bob swyddog ac aelod o'r staff, mae'r bwch cyflog cymedrig (cyfartalog) ar gyfer menywod yn Heddlu Gwent wedi gwella ers 2017. Mae'r swyddogion benywaidd a'r staff a gynrychiolir ar ben uchaf y raddfa gyflog wedi gwella hefyd am y drydedd flwyddyn yn olynol. Fodd bynnag, mae'r bwch cyflog cymedrig ar gyfer staff benywaidd yr heddlu wedi cynyddu. Mae nifer staff benywaidd yr heddlu yn sylweddol uwch na nifer staff gwrywaidd yr heddlu, a fydd yn effeithio ar ganlyniad y dadansoddiad ar y bwch cyflog.

Oherwydd nifer y cyflogeion yn y sefydliad, nid yw'n ofynnol yn gyfreithiol i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau ymwneud nac adrodd ar ein dadansoddiad ein hunain ynghylch cyflog rhwng y rhywiau. Er mwyn dangos ein hymrwymiad i sicrhau tryloywder a chydraddoldeb yn y gweithle, o dan y Cydgynllun Cydraddoldeb Strategol newydd, byddwn yn cynnal gweithgareddau gyda'r nod o adolygu gwybodaeth am y bwch cyflog mewn cysylltiad â'n staff ac yn cyhoeddi canlyniadau ein dadansoddiad. Bydd hyn yn ein helpu i nodi a gweithio i fynd i'r afael ag unrhyw anghydraddoldeb cysylltiedig yn y sefydliad.

Hefyd, mae'r gwaith tuag at gofnodi a monitro ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol ac anabledd swyddogion ac aelodau o'r staff yn effeithiol wedi parhau. Fodd bynnag, ers heriau o ran ymgysylltu â staff â phrosesau cofnodi demograffig a chynyddu eu hyder ym mhob rhan o'r gweithlu i ddatgelu eu cysylltiadau â nodweddion gwarchoddedig penodol. Parheir i ganolbwyntio ar hyn mewn Cyfarfodydd Gweithlu Cynrychioliadol, ar gyfer cyfeiriadedd rhywiol yn enwedig, a bydd yn helpu'r sefydliad i nodi graddau'r tangynrychiolaeth yn effeithiol ar draws yr holl nodweddion.

Yn ystod y flwyddyn, roedd y gwaith o ailstrwythuro Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau wedi ei ymwreiddio'n llawn. Cofnodir data demograffig at ddibenion monitro (lle y'u datgelir) ac fe gânt eu cyhoeddi ar wefan Swyddfa Comisiynydd yr

Heddlu a Throseddu¹³. Yn 2019/20, roedd tîm Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn cynnwys y staff canlynol (ac eithrio'r Comisiynydd a'r Dirprwy Gomisiynydd):

Cynrychiolaeth staff Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu 2019/20:

<i>Nifer y swyddi yn yr adeilad</i>	17 (FTE)
<i>Cyfran y staff sy'n fenywod</i>	13
<i>Cyfran y staff sy'n aelodau o leiafrif ethnig</i>	0
<i>Cyfran y staff sydd ag anabledd</i>	2

Rydym yn cydnabod nad yw Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi ei chynrychioli'n ddigonol ar draws ystod o nodweddion gwarchoddedig. Mae'r Comisiynydd wedi ymrwymo i wella amrywiaeth y sefydliad pan gyfyd cyfleoedd i wneud hynny. Rydym yn 'Ymroddedig' o hyd tuag at fod yn Hyderus o ran Anabledd ac yn hyrwyddo hynny ar ein gwefan.

Byddwn yn parhau i archwilio cyfleoedd i gyfochri ein hunain â mentrau cyflogaeth eraill er mwyn cefnogi ein gwaith tuag at gynyddu amrywiaeth ein staff. Er enghraifft, yn ystod 2020/21, byddwn yn gweithio gyda Chwarae Teg, sef prif elusen cydraddoldeb rhywiol Cymru, gyda'r nod o ddod yn Gyflogwr Chwarae Teg. Rydym yn dymuno bod yn weithle lle bo pawb yn gallu cyflawni eu llawn botensial ni waeth beth fo'u rhywedd, a bydd meincnod Cyflogwr Chwarae Teg yn ein cefnogi i sicrhau cydraddoldeb rhywiol yn ein sefydliad, gan roi manteision gweithlu gwirioneddol gytbwys inni.

Yn ehangach na hynny, rydym yn dymuno chwarae ein rhan wrth fynd i'r afael â rhwystrau i waith fel bod pawb, ni waeth beth fo'u cefndir nac unrhyw nodweddion gwarchoddedig, yn gallu cyflawni eu potensial. Mae cynyddu ein hymgysylltiad uniongyrchol â chymunedau nas cynrychiolir yn ddigonol a pharhau i godi ymwybyddiaeth o swyddogaethau yn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'u cyfrifoldebau, gan ddangos diwylliant teg a chynhwysol yn cefnogi'r ymrwymiad hwn a byddwn yn manteisio i'r eithaf ar unrhyw gyfleoedd i amrywio'r gweithlu mewn gweithgareddau recriwtio yn y dyfodol.

Y Gymraeg

Nid yw'r Ddeddf Cydraddoldeb yn cwmpasu'r Gymraeg fel nodwedd. Cyflwynodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 y cysyniad o Safonau'r Gymraeg yn 2016 ar gyfer cyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill a enwir. Rhoddwyd dogfennau Safonau ar wahân i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl a chyhoeddir Adroddiadau Cydymffurfio â Safonau unigol yn flynyddol.

¹³ <https://www.gwent.pcc.police.uk/cy/amdanom-ni/y-tim/>

Mae llawer o'r gofynion o dan Safonau'r Gymraeg yn cyd-fynd â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae arferion gwaith mewnol yn parhau i ddatblygu er mwyn sicrhau bod egwyddor cydraddoldeb Cymraeg yn cael ei pharchu ym mhob agwedd ar ddarparu gwasanaethau. Caiff cynnydd ei fonitro o'i gymharu â'r Safonau yng Nghyfarfod y Gymraeg, y mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn bresennol ynddo.

Rydym wedi parhau i weithio gyda Heddlu Gwent i wella hygyrchedd ein gwasanaethau Cymraeg a phryd y maent ar gael, gan gynnwys yn ystod arferion recriwtio. Rydym wedi cynyddu ein hymgysylltiad â chymunedau Cymraeg, gyda'n prosesau ymgynghori yn enwedig, ac mae cynlluniau ar y gweill i lansio tudalennau cyfryngau cymdeithasol Cymraeg Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn 2020/21. Bydd hyn yn helpu i godi proffil y sefydliad i'n cymunedau Cymraeg ac yn hybu cyfleoedd cyflogaeth yn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Heddlu Gwent.

Rydym hefyd wedi sefydlu'r gofyniad sylfaenol o 'Cymraeg yn ddymunol' ar gyfer pob swydd wag neu newydd ac mae gennym broses asesu ar waith i benderfynu pryd y mae angen swyddi lle bo 'Cymraeg yn hanfodol'. Roedd hyn yn cynnwys y broses o recriwtio'r Prif Gwnstabl yn 2019.

Mae'r holl staff wedi cwblhau lefel un o'r sesiynau 'Cyflwyniad i'r Gymraeg' a chynigir cyfleoedd ffurfiol i wella sgiliau Cymraeg yn ystod amser gwaith ym mhob rhan o'r sefydliad. Yn ystod y flwyddyn, un aelod o staff Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a gofrestrodd ar gyfer dosbarthiadau Cymraeg.

Hefyd, fe welodd 2019/20 lansiad Rhwydwaith y Gymraeg ar gyfer swyddogion a staff sy'n siarad Cymraeg. Wedi ei gyfochri â'r Rhwydweithiau Cymorth Staff, nod Rhwydwaith y Gymraeg yw darparu cymorth i ddysgwyr a siaradwyr y Gymraeg, gan gynrychioli'r gallu i ddewis iaith ym mhob rhan o'r sefydliad a chefnogi'r prosesau recriwtio. Rydym yn annog yr holl staff sydd â sgiliau Cymraeg i ymgysylltu â'r Rhwydwaith er mwyn cefnogi defnydd rheolaidd o'r Gymraeg a'i datblygiad yn y gweithle.

Rydym yn cydnabod yr heriau o ran darparu gweithlu dwyieithog ac yn parhau i ymgysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg a phartneriaid eraill wrth weithio tuag at greu gwasanaeth heddlu lleol sy'n gwir galluogi pobl i ddewis eu hiaith.

Ym mis Chwefror 2020, fe wnaethom ni gefnogi digwyddiad ymgysylltu â'r cyhoedd mewn cysylltiad â'r Gymraeg cyntaf Heddlu Gwent. Daeth cynhadledd 'Cymraeg – Ein Hiaith' â siaradwyr Cymraeg â dysgwyr o bob rhan o Went ynghyd i ddathlu'r Gymraeg ac i roi cyfle i gyfranogwyr ddatblygu syniadau ynghylch sut i gynyddu'r ystod o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg drwy'r holl wasanaethau plismona. Siaradodd y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl yn y gynhadledd a helpodd hefyd i godi ymwybyddiaeth o ymrwymadau Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Heddlu Gwent i wella cynrychiolaeth o'r Gymraeg ym mhob rhan o'n gweithluoedd. Bydd y ddau sefydliad yn defnyddio sylwadau o'r diwrnod yn rhan o'n prosesau gwella ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Amcan Cydraddoldeb Pump: Iechyd Meddwl

Gweithio mewn partneriaeth er mwyn gwella'r gwasanaethau a ddarperir i bawb sy'n dioddef o salwch meddwl a sicrhau lles meddyliol yr holl bersonél

Rydym wedi parhau i weithio gyda Heddlu Gwent a phartneriaid i ddarparu gwasanaethau i bobl sy'n profi argyfwng iechyd meddwl ac i ddarparu gweithle gwybodus sy'n nodi ac yn cefnogi personél sydd mewn perygl oherwydd iechyd meddwl gwael neu sy'n dioddef oherwydd iechyd meddwl gwael.

Concordat Gofal Mewn Argyfwng Iechyd Meddwl i Gymru yw'r llinyn euraidd sy'n treiddio gweithgarwch iechyd meddwl gweithredol o hyd. Cyflawnir ymrwymiadau'r Concordat drwy Grŵp Cyflawni Amlasiantaethol sy'n cynnal cyfarfod bob chwarter y mae Swyddog Cyswllt Iechyd Meddwl Heddlu Gwent yn bresennol ynddo. Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn aelod o'r Bartneriaeth Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu a gynhelir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae'r ddau gyfarfod hyn yn cynnig cyfleoedd i fonitro dulliau partneriaeth o gefnogi pobl sydd ag anghenion iechyd meddwl pan fyddant yn dod i gysylltiad â'r heddlu.

Tîm Brysbennu Iechyd Meddwl

Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau wedi parhau i gefnogi darpariaeth y Tîm Brysbennu Iechyd Meddwl. Mae'r gwasanaeth yn rhan annatod o Ystafell Gyfathrebu Heddlu Gwent, ac mae'n cynnig cyngor proffesiynol sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl i unrhyw swyddog neu aelod o staff sy'n ymdrin â digwyddiad iechyd meddwl. Ar gyfartaledd, mae'r tîm yn ymdrin â 30 o ddigwyddiadau iechyd meddwl fesul diwrnod, gan gynnwys trefnu asesiadau iechyd meddwl amserol gydag asiantaethau partner. Maent hefyd yn ymgynghori ar y defnydd arfaethedig o gadw pobl o dan Adran 136 ac yn cynghori swyddogion ynghylch a oes dewisiadau amgen a llai cyfyngol ar gael i gefnogi'r person mewn argyfwng. Ym mis Chwefror 2020, derbyniodd y tîm 22 o geisiadau o'r math hwn, gan ddargyfeirio 13 o'r achosion posibl hyn o gadw pobl o dan Adran 136 i ganlyniad mwy priodol.

Adroddir ar y defnydd o'r ddalfa ar gyfer Adran 136 yn adran B o Amcan 2. Fel y nodwyd eisoes, roedd y defnydd o'r ddalfa ar gyfer y math yma o garchar wedi parhau i ostwng. Pan fo unigolion yn cael eu hunain yn nalfa'r heddlu, mae prosesau gwneud penderfyniadau yn amodol ar waith craffu er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer derbyn unigolion i'r ddalfa. Ym mhob achos, canfuwyd bod unigolion wedi bodloni'r meini prawf.

Mae'r Comisiynydd yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod lefel y gwasanaeth i bobl mewn argyfwng iechyd meddwl yn cynnal safon uchel. Rydym yn monitro perfformiad y Tîm Brysbennu er mwyn deall effaith y galw hwn ar ein gwasanaethau a'r canlyniadau i bobl mewn argyfwng iechyd meddwl. Pan fo hynny'n briodol, rydym yn darparu sylwadau er mwyn galluogi gwelliant parhaus i'r gwasanaeth. Gan weithio gyda phartneriaid, byddwn yn nodi cyfleoedd i barhau i ddarparu gwasanaeth

brysbennu cynaliadwy ac effeithiol sy'n cefnogi rhai o'n dinasyddion sydd fwyaf agored i niwed.

Lles

Mae lles swyddogion a staff wedi parhau i fod yn ganolbwynt i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Heddlu Gwent yn ystod y flwyddyn. Caiff lles ac absenoldeb oherwydd salwch Heddlu Gwent eu monitro gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn y Bwrdd Strategaeth a Pherfformiad.

Mae'r gwaith o Reoli'r Risg o Drawma wedi ei wreiddio'n gadarn yn Heddlu Gwent bellach a'i nod yw cynnig asesiadau risg i unrhyw swyddog neu aelod o staff a allai fod wedi bod yn agored i drawma. Rhwng mis Ebrill 2019 a mis Chwefror 2020, cynigiwyd asesiadau i 994 o swyddogion a staff ac fe dderbyniodd 89 o unigolion y cynnig. I'r rhai sy'n ymgysylltu ag asesiadau, mae'r broses yn caniatáu triniaeth gynnar mewn achosion pan nodir rhagor o risg o anhwylder straen ôl-drawmatig o ganlyniad i'w profiad.

Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn parhau i gefnogi a chymryd rhan ym mentrau lles y gweithlu sy'n gysylltiedig ag iechyd corfforol a meddyliol. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Mae safle mewnwyd Fy Iechyd a'm Lles yn cynnig siop un stop i staff gael gafael ar wybodaeth gyfredol a pherthnasol am bob agwedd ar les
- Dosbarthiadau ymarfer corff am ddim
- Gwasanaethau ceiropracteg â chymhorthdal a ddarperir drwy Brifysgol De Cymru
- Brechiadau ffliw blynyddol
- Cenhadon Lles
- Grwpiau cymorth iechyd a lles, megis Ffibromyalgia a menopos
- Caffis Iechyd Misol sy'n canolbwyntio ar amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys sgrinio iechyd, canser y fron, canser y prostad, menopos a ffrwythlondeb
- Parhad y cynllun Beicio i'r Gwaith.

Ym mis Mawrth 2020, cafodd holl staff Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu eu cyfarwyddo i weithio gartref, yn unol â deddfwriaeth cyfyngiadau symud Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a chanllawiau yng Nghymru. Rhoddwyd nifer o brosesau ar waith i gefnogi staff i barhau i ymgymryd â'u swyddogaethau ac i reoli eu hamser gwaith yn effeithiol gan gadw cydbwysedd rhyngddynt ag ymrwymadau'r cartref a'r teulu. Yn ogystal â goruchwyliaeth reolaidd a chyfarfodydd tîm, cynhaliwyd sesiynau anffurfiol, gan gynnwys 'Teabreak Tuesday'. Mae'r hanner awr rithwir hon ar gyfer dal fyny yn dod â staff at ei gilydd i helpu i leihau teimladau o unigedd oddi wrth gydweithwyr ac i hybu cyswllt cymdeithasol cadarnhaol. Cynhelir cyfarfodydd tîm rheolaidd ar-lein a chynhelir sesiynau unigol mynych rhwng staff a rheolwyr llinell ar sail hyblyg, yn unol ag anghenion staff unigol. Mae Diwrnodau Cwrdd i Ffwrdd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi parhau ar ffurf cyfarfodydd rithwir er mwyn cefnogi ac ymgysylltu yn fwy â staff yn ystod y cyfnod ansicr a digynsail hwn.

Byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa yn 2020/21 er mwyn sicrhau bod staff yn teimlo eu bod nhw'n cael eu cefnogi a'u calonogi wrth inni wynebu'r posibilrwydd o addasiadau mwy parhaol i'n harferion gwaith.

4. Casgliad a Gwaith yn y Dyfodol

Mae cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol hwn ar gyfer blwyddyn olaf Cydgynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020 yn ein galluogi i gydnabod y gwaith a wnaed ym mhob rhan o'r sefydliad i ddatblygu ein hymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth sydd wedi ei gyfochri â'r pum Amcan Cydraddoldeb.

Yn ystod y cyfnod hwn, gwelsom nifer o welliannau i'r ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau, yn ogystal ag ymdrechion i gynyddu ein dealltwriaeth o anghenion a safbwyntiau'r rhai sy'n eu defnyddio nhw. Fe wnaethom gynyddu ein gwaith partneriaeth er mwyn darparu cymorth mwy cynhwysfawr i unigolion sy'n agored i niwed ac archwilio ffyrdd o ddarparu cynaliadwyedd ar gyfer rhaglenni cydweithredol presennol.

Mae ein gwaith craffu ar ddefnydd Heddlu Gwent o rym a stopio a chwilio wedi parhau i ddarparu her a chefnogaeth, gan ein galluogi i weithredu nifer o newidiadau cadarnhaol a datblygu hunanasesiad agosach o arferion plismona lleol. Mae parhau i leihau'r defnydd o'r ddalfa ar gyfer cadw unigolion o dan Adran 136 ac effaith y Tîm Brysbennu Iechyd Meddwl yn ganlyniadau cadarnhaol iawn sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i wella profiadau pobl sy'n profi argyfwng iechyd meddwl yng Ngwent.

Mae'r ddarpariaeth o gynlluniau ariannu i gefnogi plant a phobl ifanc wedi parhau i wneud gwahaniaeth, yn enwedig mewn ardaloedd daearyddol lle bo rhagor o amddifadedd economaidd-gymdeithasol. Fe wnaethom wella ein hygyrchedd yn llwyddiannus drwy ein gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd, ac mae gweithredu archwiliad o'r ystadau yn cefnogi ein huchelgais o gynyddu amrywiaeth ein gweithlu ac o ddod yn gyflogwr o ddewis yng Ngwent. Bydd datblygu ein cynlluniau arallgyfeirio yn parhau i roi cyfleoedd i unigolion gael gafael ar gymorth a chefnogaeth ac yn lleihau effaith ehangach eu gweithredoedd.

Croesawyd gwaith recriwtio ychwanegol gan Heddlu Gwent o dan Ymgyrch Uplift a'r defnydd o fentrau gweithredu cadarnhaol gydag ymgeiswyr BAME. Fe wnaethom ymgorffori'r gwaith o ailstrwythuro Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, er mwyn ein galluogi i ddatblygu ein dulliau o fynd i'r afael â thangrychiolaeth yn y sefydliad. Roeddem hefyd yn cefnogi digwyddiad y Gymraeg cyntaf Heddlu Gwent, a roddodd gyfle inni ailddatgan ein hymrwymiad i greu gwasanaeth heddlu lleol sy'n galluogi pobl i ddewis eu hiaith.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod llawer i'w wneud o hyd o ran sicrhau y darperir gwasanaeth plismona sy'n ennyn hyder mewn cymunedau lleol gan eu hadlewyrchu. Mae meithrin diwylliant sefydliadol sy'n dangos pwysigrwydd cydraddoldeb a chynwysoldeb yn elfen allweddol o'n llwyddiant ac mae'n rhaid inni barhau i weithio gyda thryloywder a dangos ein bod yn atebol. Drwy wneud hyn, ein nod yw darparu gwasanaeth o ansawdd uchel y gall cymunedau amrywiol Gwent ei ddefnyddio'n

hyderus ac ymgysylltu ag ef. Bydd y meysydd y parheir i weithio arnynt o'r Cydgynllun Cydraddoldeb Strategol blaenorol yn treiglo i'n Cynllun pedair blynedd newydd ac yn llywio'r Amcanion Cydraddoldeb cysylltiedig.

Yn gynnar yn 2020, fe wnaethom ni ddechrau ymgysylltu â'r cyhoedd ar ein Hamcanion Cydraddoldeb newydd ar y cyd rhwng Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Heddlu Gwent ar gyfer 2020-24. Yn ogystal â'r digwyddiad Hawl i Holi Ieuenctid, roedd cynlluniau ymgysylltu yn cynnwys presenoldeb mewn grwpiau cymunedol, cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus, arolwg ar-lein, ac ymgynghoriadau mewnol â swyddogion a staff Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Heddlu Gwent. Oherwydd effaith y cyfyngiadau symud ym mis Mawrth, chwiliwyd am ddulliau ymgysylltu eraill er mwyn sicrhau bod canlyniadau ein gwaith ymgysylltu yn ystyrlon ac yn cefnogi ein cynnydd am y pedair blynedd nesaf.

Cyhoeddir Adroddiad Gwerthuso Ymgynghori ar y cyd sy'n cynnwys canlyniadau'r gwaith ymgysylltu a thystiolaeth arall i gefnogi'r Amcanion a'r Cydgynllun Cydraddoldeb Strategol newydd, a fydd yn nodi'r weledigaeth ar gyfer Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Heddlu Gwent wrth inni barhau i fynd i'r afael â'r materion hirdymor a rhai sy'n dod i'r amlwg sy'n effeithio ar ein cymunedau, y rhai sy'n ymwneud â phrosesau cyfiawnder troseddol, a'n swyddogion a'n staff.

Bydd y Cydgynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael ei danategu gan Gynlluniau Cyflawni unigol ar gyfer Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Heddlu Gwent. Bydd y Cynlluniau Cyflawni yn pennu'r camau gweithredu a'r gweithgareddau i'w cymryd gan y gwahanol feysydd busnes ac adrannau ym mhob sefydliad. Bydd ein Hamcanion Cydraddoldeb yn cael eu hategu gan amcanion perfformiad allweddol clir. Pan fo hynny'n bosibl, bydd ein huchelgeisiau a'n meini prawf llwyddiant yn rhan o'n Cynlluniau, a fydd yn meincnodi ble'r ydym yn awr ac yn nodi ble'r ydym yn bwriadu bod yn 2024.

Dogfennau gwaith mewnol a ddefnyddir i fonitro cynnydd o'i gymharu â'r amcanion o dan brosesau llywodraethu ac adrodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Heddlu Gwent, ac i lywio'r gwaith o lunio ein Hadroddiadau Blynyddol fydd y Cynlluniau Cyflawni.

5. Monitro a Chraffu

Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn monitro cynnydd Heddlu Gwent o'i gymharu â'r Amcanion Cydraddoldeb yn eu Bwrdd Strategaeth Pobl mewnol gydag adroddiadau cysylltiedig rheolaidd, gan gynnwys Adroddiad Blynyddol eu Cynllun Cydraddoldeb, i Fwrdd Strategaeth a Pherfformiad y Comisiynydd. Bydd adolygiad Heddlu Gwent o strwythur eu cyfarfodydd a'u llywodraeth gysylltiedig yn gyfle i wella gwaith craffu ac atebolrwydd mewnol yn yr holl feysydd sydd wedi eu cynnwys yn eu Cynllun Cyflawni ar Gydraddoldeb. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r heddlu wrth i'w prosesau llywodraethu gael eu hymgorffori ac yn cefnogi unrhyw waith gwella gofynnol a argymhellir gan gyrff allanol megis Arolygiaeth Cwnstabiliaeth, Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi.

Adroddir ar gynnydd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau i Fwrdd Rheoli Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau. Darperir Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau i'r Bwrdd Strategaeth a Pherfformiad hefyd, yn ogystal â Phanel yr Heddlu a Throseddau fel y gallant ei ystyried a rhoi sylwadau ynghylch sut yr ydym wedi perfformio o'i gymharu â'r Amcanion Cydraddoldeb.

6. Cysylltu â ni

I gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb ac amrywiaeth, cysylltwch â:

<p>Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau Pencadlys yr Heddlu Croesyceiliog Cwmbrân Torfaen NP44 2XJ</p> <p>Ffôn: 01633 642200 E-bost: Commissioner@gwent.pnn.police.uk</p> <p>www.gwent.pcc.police.uk</p>	<p>Tîm Amrywiaeth a Chynhwysiant Heddlu Gwent Pencadlys yr Heddlu Croesyceiliog Cwmbrân Torfaen NP44 2XJ</p> <p>Ffôn: 01633 247907 E-bost: Diversityandinclusion@gwent.pnn.police.uk</p> <p>www.gwent.police.uk</p>
---	---